

ECO'R WYDDFA

RHIF 96

HYDREF 1984

Pris: 20c

POBI A CHRASU UNWAITH ETO YN LLANBERIS



Bu'n rhaid i ffotograffydd yr Eco godi'n gynnar iawn er mwyn gallu tynnu'r llun yma o brysurdeb boreol Becws Eryri.

Am y tro cyntaf ers chwe blynedd mae arogl digamsyniol bara yn crasu yn hofran uwchben rhan o Lanberis unwaith eto. Gydag agor Becws Eryri yng nghanol Medi gwelir ail-gychwyn traddodiad sydd â hanes cyfoethog iddo yn y pentref.

Gwyneth Roberts, Eryri House, yw sylfaenydd y busnes a bydd yn cyflogi tri gweithiwr. Mae Gwyneth ei hun yn rhan o'r traddodiad, ei thad, Harry Rowlands oedd becar Snowdon (trowch i dudalen 5 am luniau a pheth o'r hanes).

Bydd Becws Eryri yn paratoui popeth a ddisgwyliod o fecws modern – gan gynnwys cacennau priodas. Cynhyrchir hefyd 'fara ceiniog' – sydd yn blasu, ond nid yn costio "fel rhai ers talwm".

Mae Eifion a Gwyneth Roberts â diddordeb mewn hanes tai crasu yn Llanberis – a buasent wrth eu bodd cael benthyg lluniau, os oes rhai ar gael, er mwyn gwneud copïau ohonynt i'w harddangos yn y becws newydd.

CYNRYCHIOLI CYMRU



Cipolwg ar yr arddull hyrddio pwysau sydd wedi ennill clod ac anrhyddedd i Michael, ei ysgol a'i fro.

Llongyfarchiadau calonnog i Michael Roberts, 18 Dolafon, Cwm-y-glo, a ddewiswyd i gynrychioli ysgolion Cymru.

Bu'n cystadlu yn Crawley yng Nghyfarfod Athletau Ysgolion Prydain a daeth yn 7fed yn y gystadleuaeth hyrddio'r pwysau ac fe sefydlodd record ysgol newydd yr un pryd o 13.86m.

Yn ddiweddarach, bu'n cystadlu yn Birmingham yng Nghyfarfod Cymdeithas Athletau Amatur (A.A.A.) Prydain dan 20 oed – llwyddodd i ddod yn 6ed yn erbyn

athletwyr profiadol iawn a hyd at dair blynedd yn hŷn nag ef.

Yng nghyfarfod Athletau Cymru yn Abertawe, daeth Michael yn 1af yn y Pwysau a'r Ddisgen dan 20 oed, a'r tro yma sefydlodd record newydd ysgol yn y ddisgen o 39.78m.

Mae Michael, sy'n y chweched dosbarth yn Ysgol Brynrefail wedi ennill anrhyddedau pêl-droed ieuencid hefyd. Ef yw gôl-geidwad presennol tîm iau Llanberis. Mae ei fryd ar fod yn blismon ar ôl gadael yr ysgol. Ein dymuniadau gorau a'n llongyfarchiadau iddo.

PLISMON YN DAL TRI MAWR

Na, nid drwgweithredwyr ond tri brithyll sylweddol a roddwyd yn y ddalfa gan Oscar Evans o Fethel. Roedd Mr Evans, sy'n swyddog cyswllt yr heddlu â'r ysgolion, yn cystadlu ym Mhencampwriaeth gyntaf Pysgota Plu Genedlaethol ar lyn Brenig. Cymdeithas Chwaraeon Heddlu Gogledd Cymru oedd yn noddi'r digwyddiad.

Fel y pencampwr unigol, enillodd Mr Evans Dlws y 'Police Review', a medal aur a bathodyn côf Cymdeithas yr Heddlu – sy'n gryn anrhyddedd.

Un stori fechan ddiddorol. Ym 1978 aeth tîm rygbi heddlu Gogledd Cymru i chwarae yn erbyn tîm heddlu Strathclyde yn yr Alban. Ar ôl y gêm aeth rhai i siarad am bysgota – ac am ffurfio math ar gymdeithas a soniodd y plismyn o Gymru y gellid cysylltu ag Oscar Evans. Canlyniad y cyswllt fu sefydlu Cymdeithas Bysgota yr Heddlu. Y Bencampwriaeth gyntaf iddynt ei threfnu oedd yr un ar lyn

Brenig. Rydych yn gwybod pwy oedd y pencampwr unigol, dyfalwch pwy gipiodd brif wobwr cystadleuaeth y timau – ie, 'dach chi'n iawn, Strathclyde!



Y Tlws a'r Fedal a enillwyd gan Oscar Evans.



Cwnstabl Oscar Evans yn ymarfer ei grefft ar y Seiont ger pont Crawia.

ECO'R WYDDFA

RHIF 96
HYDREF 1984

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Tomas, Bron y Nant,
Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun (Llanberis 872438)

TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis
(871561)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones,
60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 77163).

Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn
Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gwledfa
(Llanberis 871223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams 6 Rhyd
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 870671)

LLANBERIS: Miss Jane Morris, 'Rallt
Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch,
Llanberis (871561)

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce,
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

NANT PERIS: Mrs J.E. Elis, 8
Glanrafon, Nant Peris. (Llanberis
870 733).

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Edward Elias, 21
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg

TACHWEDD 1af

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS FAWRTH

HYDREF 23

os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

Samariaid Gwynedd — angen arian gwledydd tramor

Mae'r Parch J. Aelwyn Roberts, ficer Llandegai, wedi gofyn am help unwaith eto i roi cyhoeddusrwydd i'w gynllun o hel arian papur gwledydd tramor ar gyfer Samariaid Gwynedd.

Cred Mr Roberts y bydd llawer o arian tramor ar gael fel y bydd pobl yn dod yn ôl o wyliau dros môr eleni eto.

Mae'r cynllun yn hollol syml. Mae gan Samariaid Gwynedd gyfrif ym mhob banc ym Mangor. Os bydd gan neb Ffranc, neu Pseta neu Deutschmark papur yn aros ar ôl y gwyliau ac efallai yn rhy isel ei werth i'w newid, y cwbl sy'n rhaid ei wneud ydi mynd â'r arian tramor papur yma i unrhyw fanc yng Ngwynedd ac fe wnaiff y banc ei anfon ymlaen i'w gangen ym Mangor.

Mae Samariaid Gwynedd yn gweithio'n galed a bellach yn rhoi help i lawer. Maent yn werth eu helpu.

Yn ddiffuant,
J. Aelwyn Roberts.

Y Ficerdy
Llandegai
Bangor.

YMDDIHEURIAD I BOBL LLANBERIS

Annwyl Olygydd,

Bu Cwmni Rheilffordd yr Wyddfa yn rhedeg trenau o Lanberis ers 1896, ac er gwaethaf ambell anghytgord, erys perthynas glôs a llwyr gydweithrediad rhyngddo â thrigolion y pentref.

Yn anffodus, oherwydd streic y glowyr, methodd y rheilffordd â sicrhau cyflenwad o'r glo ager sych a arferir ei ddefnyddio, gan eu gorfodi i droi at lo diwydiannol, sy'n creu llawer mwy o fwg wrth ei losgi. Amlygwyd y canlyniad yn y cymylau duon fu'n hofran uwchben y pentref yn ystod yr haf.

Dymuna pawb sy'n gysylltiedig â'r Cwmni, drwy gyfrwng y llythyr hwn, ymddiheuro i drigolion Llanberis, ac yn enwedig i'r rhai sydd â'u cartrefi gyfagos â'r lein, a diolch o galon iddynt am eu goddefgarwch.

Yr eiddoch yn gywir,
D. Rogerson
Rheolwr Cyffredinol
Rheilffordd yr Wyddfa
Llanberis

HANES GLAN EILIAN

Annwyl Olygydd,
Fi oedd yn gyfrifol am anfon

Gwrachod i ddechrau'r daith

Cyflwyniad yn ymwneud â gwrachod fydd cynhyrchiad cyntaf Cwmni Theatr mewn Addysg Gwynedd. Y cwmni theatr yma yw'r diweddaraf i'w sefydlu yng Nghymru. Fe'i ffurfiwyd i ddarparu cynhyrchion ar gyfer ysgolion Gwynedd.

Cynhyrchiad ar gyfer plant rhwng 7 a 9 oed sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith yw *Ceiniog i Cadi*. Wedi ei leoli yn yr ail ganrif ar bymtheg ceir ynddo ddarlun syml o gredodau'r cyfnod am wrachod. Bydd ynddo borthmon rhadlon a'i storïau am wrachod o Loegr, merch i'r sgweier lleol, Cadi'r wrach gyda'i swynion a'i mellthion, a'i chymdoges Dorcas, un o'r pentrefwyr.

Bydd y plant hefyd yn chwarae rhan y pentrefwyr. Eu hystafell ddosbarth fydd y pentref a lleolir llawer o'r chwarae yng nghartref Cadi. Bydd y plant yn chwarae rhan amlwg yn y digwyddiadau ac ar y diwedd disgwylir iddynt hwy benderfynu a yw Cadi'n wrach ai peidio.

"Rydym am ddifyrru'r plant a rhoi profiad theatrig iddynt ond ar yr un pryd mae yna elfen addysgol gref i'r perfformiad", meddai Eirwen Hopkins, y Cyfarwyddwr, "yn *Ceiniog i Cadi* rydym yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr ehangu eu geirfa yn ogystal â rhoi ymarferiad iddynt mewn gwneud penderfyniad."

Ysgrifennwyd y sgript gan Sian Edwards, Caerdydd, mewn

ymgyngoriad ag aelodau'r Cwmni. Mae'n fersiwn ddiwygiedig o brosiect peilot a gynhaliwyd y llynedd dan arweiniad Coleg Harlech. Cyflwynwyd y cynhyrchiad gwreiddiol mewn nifer o ysgolion yng nghylch Theatr Ardudwy a phrofodd ei lwyddiant fod brwdfrydedd tuag at sefydlu gwasanaeth Theatr Mewn Addysg yng Ngwynedd.

Tair actores oedd yn y cynhyrchiad gwreiddiol — Mair Tomos Ifans, Gwen Lasarus a Llio Silyn. Maent ill tair yn ogystal â Llion Williams yn aelodau sefydlog y cwmni newydd. Cyfarwyddwr y Cwmni yw Eirwen Hopkins.

Bydd *Ceiniog i Cadi* ar daith gydol Tymor y Nadolig bron, a bwriad y Cwmni yw ceisio perfformio i hoill ysgolion cynradd Gwynedd cyn diwedd y flwyddyn.

Am wybodaeth bellach ac ymholiadau ynglŷn â'r Cwmni a'i waith, cysyllter â: Geraint Wyn Parry, Gweinyddwr Theatr Mewn Addysg, Coleg Harlech, Harlech, Gwynedd LL46 2PU. Ffôn: Harlech (STD 0766) 780 179.

hanes Glan Eilian Llanberis (Bee Hive).

Brawd i fy nhad oedd Mr Morris Rowlands oedd yn cadw'r siop a'r gwesty.

Yn gywir,
Betty R Evans
(Rowlands gylt)

EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANRUG

Mae pwyllgor yr Eisteddfod yn ddiolchgar iawn am yr holl roddion a ddaeth i law tuag at gostau'r Eisteddfod, ac yn gwahodd rhoddion tuag at wobrau arbennig neu dlysau.

Er mwyn eu nodi yn Rhaglen y dydd gwahoddir cyfranwyr i gysylltu â'r swyddogion mor fuan ag yw'n bosib cyn i'r rhaglen fynd i'r wasg.

Bydd Mrs Gwenda Roberts, Hafle yn ddiolchgar iawn o addewidion am roddion o fwyd tuag at ddiwrnod yr eisteddfod.

Hyderwn y bydd ymateb da a chystadlu brwd i sicrhau eisteddfod lwyddiannus unwaith eto. Nodwch y dyddiad — Hydref 13 — o 10.30 yn y bore drwy'r dydd. Cofiwch ddod — cefnogwch eisteddfod yr ardal.

Cofiwch am noson beirniadu'r cynnyrch celf a chreffft — sef nos Fawrth, Hydref 9. Dewch â'ch gwaith i Ysgol Gynradd Llanrug erbyn 6.30 p.m.

WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF

ATGYWEIRIO TAI
GWAIR

E. PUGH

WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 5394

AM FFENESTRI
DRYSAU
GRISIAU

neu unrhyw fath
o gynnyrch coed
ffoniwch

BRYN

LLANBERIS 870793

B & K WILLIAMS
TANRALLT
CWM-Y-GLO

GWYL WERIN CAERNARFON

Dyma fanylion Gŵyl Werin Caernarfon am eleni. Ar nos Wener, Hydref 5, cynhelir cyngerdd gyda Hogia Llandegai a Thraed Wadin yng Nghanolfan Tan y Bont (i ddechrau am 8.30 p.m. - £1.50 tâl mynediad).

Hefyd ar y nos Wener (Hydref 5) bydd Noson Roc yn Ysgol Syr Huw Owen o 7.30 p.m. hyd 10.30 p.m. gyda 'Ficar' - Mynediad £1.

Ar ddydd Sadwrn, Hydref 6, cynhelir Gweithdai Dawnsio Gwerin yn Ysgol Syr Huw Owen o 9.30 a.m. i 12.00 (Mynediad: Oedolion 50c; Plant 20c).

Yn y prynhawn bydd dawnsio ar y strydoedd yng Nghaernarfon a Bangor. Ceir gorymdaith i ganol Caernarfon i ddechrau o Westy'r Royal am 1.30 p.m.

Nos Sadwrn am 7.30 p.m. bydd Twmpath Dawns yng Ngwesty'r Royal. Tocynnau £3 (yn cynnwys mynediad a chyw iâr mewn basged). Rhaid cael tocynnau ar gyfer y Twmpath o flaen llaw.



Dyma luniau yn dangos peth o naws a hwyl y llynedd — Parti Danws Aelwyd Caernarfon — sydd â nifer o'r aelodau yn dod o Fro'r Eco — yn diddori'r dorf ar y Maes.

BRYNREFAIL

Gohebydd: Dafydd Ellis, Gweledfa (871223)

SEFYDLIAD Y MERCHED: Yng nghyfarfod cyntaf y tymor newydd yn yr hen ysgol fach, cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Mrs D.G. Edwards, Bangor yn arddangos gwahanol beraroglau. Mrs Hasson a Moira Ellis a fu'n gyfrifol am y te ac enillwyd y raffl gan Carol Houston a Jenny Hughes. Llongyfarchwyd Bleddyn Owen, Ceris Williams ac Eleri Roberts — tri o'r pentref a briodwyd yn ystod yr haf, ac fe ddymunwyd adferiad buan i Mrs Griffiths a Mrs Jenny Williams.

PRIODAS AUR: Llongyfarchiadau calonnog iawn i Mr a Mrs Jones, 2 Ffrwd Madog, ar ddatlu eu priodas euraidd — dymunwn bob bendith, iechyd a llawenydd iddynt fwynhau llawer blwyddyn eto. Dymuna Mr a Mrs Jones ddatgan eu diolch i'r teulu a'r llu mawr o berthnasau a

charedigion am y dymuniadau da, cardiau ac anrhegion a dderbyniasant.

CLWB PEDWARUGAIN: Enillwyr mis Awst—3ydd: 1. Norma Green, 2. Vera Price, 3. Haydn Lewis. Awst 10: 1. Ellen Lewis, 2. Pat Mowll, 3. Jill Siop Ganol. Awst 17: 1. Celt, 2. Peggy Davies, 3. Gwyn Hefin Jones. Awst 24: 1. Derek Davies, 2. Betty Owen (Llwyn Coed Bach), 3. Islwyn Williams. Awst 31: 1. Colin Wager, 2. Euronwy Roberts, 3. Bertie Roberts.

CLWB Y MAMAU: Ychydig o'r aelodau a ddaeth ynghyd i'r cyfarfod cyntaf o'r tymor newydd — sef y cyfarfod blynyddol — etholwyd Mrs Val Davies i aros fel ysgrifenyddes a Mrs Sheila Williams fel trysorydd. Gohirwyd rhai penderfyniadau a threfnu rhaglen y tymor i'r cyfarfod nesaf. Darparwyd y te gan Helen Jones a Rhian Jones. Rhoddwyd anrheg y mis gan Jinnie Williams ac fe'i henillwyd gan Jackie Jones.

CYSTADLEUAETH HANESYDDOL Y MIS!



Pedwar o gyn-ddisgyblion Ysgol Dolbadarn, Llanberis tua throad y ganrif. (Pa ganrif — nid oes sicrwydd). Dylid nodi nad ap Glaslyn yw'r un ar y dde! Mae ein diolch yn fawr i Wasanaeth Archifau Gwynedd am gael benthg y lluniau.

Y wob'r i'r sawl all ddweud wrthym pwy yw'r Hogia fydd pryd o 'Datws drwy'u crwy'n' yn 'Aberdaron' yn 'y Gwanwyn' ac yna taith o amgylch 'Hen bentra bach Llanber' ar un o 'Fysus Bach y Wlad'!

nant

YN EISIAUNANTICS

Hen gelfi i'w prynu neu logi i ddiben ffilmio; yn bennaf ar gyfer y gyfres **ALMANAC**

UNRHYW BETH DAN HAUL NAD YW O WERTH ICHI..... FE DDOWN NI I'W NÔL!

Yn y cyfamser cofiwch wyllo

'HYWEL MORGAN'

Cyfres ddrama newydd:
nos Sul, Tachwedd 18ed.

FFILMIAU'R NANT, Gronant, Penrallt Isaf, Caernarfon (0286) 5722

Wil a Val Guy
TREFLYN
STORES
BETHEL

Ffôn: Y Felinheli
670237

Stoc helaeth o ddillad plant

Legwarmers
Anklewarmers

Snwcer — sialc, tips
Ciws Riley — a byrddau hefyd
os dymunwch

Teganau, Diodydd, Melysion,
Bwydydd a Dafedd

YN EISIAU

Gofalwr i Gapel Libanus, Clwt-y-bont. Cynigir tŷ hwylus (4 ystafell fyw a 3 ystafell wely), gyda'r swydd. Cymraeg yn hanfodol.

Ymofynner â **Robert Williams, 4 Tai Caradog, Deiniolen** am fanylion pellach (teleffon Llanberis 872571).

4

LLANBERIS (parhad)

Tryfan: Paul Prydderch, Lynda Prydderch, Jennifer Clanda, Julie Bayliss, Marc Lloyd Williams, Cai Llwyd Williams, Shane Price.

CYMORTH CYNTAF – Mae'r Dosbarth Cymorth Cyntaf wedi ailddechrau, a'r oedolion a'r plant mor fywiog a brwdfrydig ag erioed. Mae'r bechgyn a'r genethod yn haeddu cefnogaeth gref, maent mor frwdfrydig ac awyddus i roi help llaw gyda phob adran gyhoeddus – fel y Chwaraeon Blyneddol, Y Ras Nofio, y Carnifal, – maent yn barod eu gwasanaeth bob amser.

Bydd Nyrs Glenys Parry, a'r Swyddog Gwilym Owen yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth y rhieni ac eraill sydd yn gwerthfawrogi'r gwaith gwirfoddol hwn.

DIOLCH – Dymuna teulu y diweddar Hetty Hughes, Llanberis, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth lem, hefyd am y cardiau, llythyrau a'r blodau dderbyniwyd, maent yn rhy niferus i'w hateb. Diolch am y rhoddion tuag at 'Gwasanaeth Gymunedol y Nyrsus' ym Mangor a ofalodd yn dyner amdani drwy gydol ei gwaeledd. Diolch i chwi i gyd.

GWELY A BRECWAST – Difyr iawn ydoedd gwyllo y rhaglen 'Gwely a Brecwast' a gweld plant Ysgol Dolbadarn yn cymryd rhan amlwg – ac yn gwneud eu rhan mor naturiol. Llongyfarchiadau arbennig iawn i Euron am ei gyfraniad unigol, meistrolgar. Roedd Euron mor gartrefol, gellid credu ei fod yn hen law o flaen y camerâu – ond yn wir dyma'r tro cyntaf iddo gael y profiad o actio i raglen deledu. Gobeithio y caiff gyfle eto i ddangos ei ddawn ac i ddiddori'r cyhoedd.

YMDDEOL – Yn ystod yr wythnosau diwethaf yma, ymddeolodd Mr Lal Jones, Stryd Gordon, o'i swydd yn adran Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd. Dymunir iddo lawer blwyddyn ddedwydd – mae ganddo ddigon o ddiddordebau – mae'n aelod o'r Cyngor Cymuned, yn aelod o Bwyllgor y Ganolfan, yn aelod o bwyllgor pêl-droed yr ardal, yn aelod o Bwyllgor y Carnifal, ac yn un o reolwyr Ysgol Dolbadarn. Dyn prysur yw Lal – yn cefnogi pob achos da, ac

yn barod ei gymwynas bob amser. Bydd ei ymddeoliad yn rhoi mwy o amser iddo ddilyn ei ddiddordebau – a dyna a wnaiff – gyda gwên yn wyneb pob anhawster. Hir oes, Lal.

UNDEB Y MAMAU – Cynhaliwyd cyfarfod o Undeb y Mamau, Eglwys Nant Peris a Sant Padarn, ar y pnawn Mawrth cyntaf o'r mis. Llywyddwyd gan y Parch Alun Hawkins. Mwynhawyd araith ddiffr gan Mrs Hefina Evans, o Fangor. Cydymdeimlwyd ag un o'r aelodau – Mrs Squires ar golli ei chwaer. Rhoddwyd y te gan Mrs Dennis Hughes, Mrs Glyn Williams, Mrs Betty Humphreys a diolchwyd iddynt gan Mrs Nellie Roberts a Mrs Elias Griffith o Nant Peris. Cyfeiriwyd hefyd at yr aelodau oedd yn yr ysbytai, gan ddymuno adferiad llwyr yn fuan iawn iddynt oll.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL – Nos Iau, Medi 6, cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r tymor o'r Gymdeithas Lenyddol Undebol dan lywyddiaeth y Gweinidog. Trefnwyd cwis gan Mrs Dilys Baylis, Stryd Goodman, a chafwyd timau o Lanberis, Nant Peris a Llanrug. Y tîm llwyddiannus ydoedd tîm Llanrug. Trefnwyd cwpaned o de gan ferched y pwyllgor.

Y CLWB IEUENCTID – Eto eleni, mae'r Clwb Ieuenctid sydd yn cyfarfod bob nos Lun a nos Fercher yn boblogaidd iawn. Ar y noson agoriadol yn y 'Church House', roedd 67 o fechgyn a genethod o 14 i fyny yn bresennol, dan lywyddiaeth eu harweinydd, Mr John Williams, Bryn Golau, a Brian Griffiths, Bontnewydd, y dirprwy arweinydd. Mae'r Clwb yn cynnig toreth o amrywiol ddiddordebau i'r aelodau, sef gweithgareddau a chwaraeon – dartiau, biliards, cystadlaethau, discos – a threfnir sgysiau gan arbenigwyr o wahanol adrannau cymdeithasol. Trefnir tripiâu o dro i dro i glybiau eraill. Mae'n adran i'r bechgyn hynaf – sef 'Y Clwb Codi Pwysau' dan ofalaeth Colin Hughes, ac mae'r adran yma yn boblogaidd iawn. Mae croeso cynnes iawn i'r oll o ieuencid yr ardal i ymuno â'r clwb hapus hwn.

DYMUNIADAU GORAU: i lfor a Margaret Jones ar eu menter newydd – Siop Formag, Stryd Fawr, Llanberis.

TAI POBI A CHRASU LLANBERIS – A'U CYMERIADAU

A hithau'n gyfnod o ailgychwyn y traddodiad o bobi a chrasu yn Llanberis – dyma ni'n cyhoeddi lluniau sy'n rhoi cip ar hanes y gwaith pwysig hwn yn y pentref.

Ers troad y ganrif deallwn fod tri becws wedi bod yn Llanberis sef Bodryn, Stryd Newton neu 'Becws John Lloyd'. Dechreuwyd y busnes yn 1900 a daeth i ben ar Ebrill 6, 1964. Parhaodd Becws 'Snowdon' o 1922 hyd 1978. Nid allwn fod mor bendant ynglŷn â Becws Fachwen (ar safle tŷ bwyta Chineaid heddiw) ond deallwn i'r gwaith ddod i ben tua chanol y chwedegau.

Beth am anfon atom os oes gennych wybodaeth, atgofion neu ragor o luniau yn ymwneud â diwydiant pobi a chrasu yn Llanberis.



John Lloyd Roberts a'i deulu a'r gweithwyr yn 1900 ar achlysur agor y becws.



Tu allan i Becws Snowdon yn y 1920au. Ydych chi'n cofio'r cymeriadau? Os ydych, anfonwch eu henwau a pheth o'r hanes i'r 'Eco'.

Diolch i Mrs Leah Lloyd Roberts a Mrs Helen Roberts am gael benthg y lluniau.



DIOLCHGARWCH PLWYFI PENISARWAUN A LLANDINORWIG

Dydd Sul Hydref 14, 1984:
Eglwys Crist Llandinorwig:
8.30 a.m. Cymun Bendigaidd (dwy-ieithog)
2.00 p.m. Gwasanaeth y Plant
6.15 p.m. Gosber a phregeth gan y Parch Emyr Rowlands, Ficer Bodedern
Eglwys y Santes Helen Penisarwaun:
10.45 Cymun Bendigaidd

(dwy-ieithog)
3.15 p.m. Gosber a phregeth gan y Parch Gwynn ap Gwilym, Curad Porthmadog
Eglwys St Mair Dinorwig:
9.30 a.m. Cymun Bendigaidd
4.45 p.m. Gosber a phregeth gan y Parch Emyr Rowlands, Ficer Bodedern.

Croeso Cynnes i Bawb

GWYNETH ROBERTS Siop

E. WILSON HUGHES

84 Stryd Fawr

LLANBERIS 870491

Daliwch i gefnogi fel o'r blaen!

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

MERCHED Y WAWR – Cafwyd noson ddifyr i agor gweithgareddau'r gangen am eleni yng nghwmni'r Parch Ganon a Mrs R.D. Roberts, Llanfairpwll. Testun eu sgwrs oedd canu gwerin a Mrs Roberts yn canu enghreifftiau o'r caneuon wrth fynd ymlaen. Diolchwyd iddynt gan Mrs Williams, Bod Fair. Diolchodd Mrs Margaret Parry i aelodau'r gangen fu'n casglu at y Spastics. Bu casgliad o dros hanner canpunt yma.

Gofynnwyd i aelodau'r gangen ymgymryd â pheth gwaith gwirfoddol yn Ysbyty Gwynedd, Bangor, gan weithio gyda'r W.V.R.S., gan obeithio Cymreigeiddio'r mudiad oddifewn.

Bydd aelodau'r gangen yn mynd o gwmpas yn ystod y mis i wneud eu casgliad blynyddol tuag at Gyngor yr Henoed.

Penderfynwyd rhoi £20 o gyfraniad tuag at Eisteddfod Llanrug. Bydd Noson Goffi yn y gangen y tro nesaf, Hydref 9, yn agored i'r pentref. Bydd stondinau bwyd, potel cynnyrch gardd a raffi neu ddwy.

Taer erfynnir ar yr aelodau am gyfraniadau tuag at y stondinau yma a'u presenoldeb ar y noson.

Dymunir adferiad buan i Mrs Beth Jones, Dolwen, ar ôl ei hymwelid â'r ysbyty.

DIOLCH – Dymuna Gwyneth a Griff Roberts, Tŷ Gwyn, ddiolch i'w theulu, ffrindiau, cymdogion, y meddygon a'r nyrus lleol am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag at Griff yn ystod ei waeledd ddiweddar.

Dymuna Mrs Nansi Roberts, Manod, ddiolch i bawb am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati ar ôl y driniaeth a gafodd yn ddiweddar.

Dymuna Orwig Roberts, Elidir View, ddiolch i berthnasau, cyfeillion a chymdogion am gardiau a dymuniadau da tra bu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Dymuna John ac Eirwen Rowlands, Llys Forgan, Llanrug, ddiolch o galon am yr holl gardiau, anrhegion a galwadau ffôn ar achlysur eu priodas arian, Medi 12. Hefyd dymuna Arwel ddiolch i bawb am y rhoddion a'r dymuniadau da ar ei ymadawid i'r coleg.

Dymuna Mrs Barbara Roberts, 2 Bryn Gro ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn 80 oed.

Y CARNIFAL – Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn y Neuadd Goffa nos lau, Medi 13 i drafod ail sefydlu carnifal yn y pentref yn 1985. Penderfynwyd galw cyfarfod cyhoeddus arall yn y Neuadd Goffa nos lau, Hydref 11 am 7.30 i drafod y mater ymhellach.

LLONGYFARCHIADAU i Wayne Mathew Jones, mab Mrs Sylvia M. Jones, 15 Stad Tal-y-bont, am ennill y wobwr gyntaf, tocyn £1.50 i brynu llyfr Cymraeg, mewn cystadleuaeth drwy Gymru gyfan dan nawdd yr Urdd. Mae Wayne yn ddisgybl yn Ysgol Gynradd Llanrug.

PONTRHYTHALLT – BEDYDD – Ar ôl y gwasanaeth fore Sul, bedyddiwyd Arwyn, baban Mr a Mrs Gwyndaf Owen, Bethel. Gwasanaethwyd gan y Parch John Morris.

YR YSGOL SUL – Nos Lun yn Festri Capel Mawr, bu Delyth Oswy sydd yn swyddog Datblygu i'r Cyngor Ysgolion Sul, yn cyfarfod athrawon ac athrawesau Ysgolion Sul, Tanycoed, Pontrhythallt a Chapel Mawr.

YSBYTY – Anfonwn ein cofion at Mr

John Williams, Gweledfa, sydd yn Ysbyty Môn ac Arfon, gan ddyuno llwyr wellad buan iddo.

Mae Mrs Nansi Roberts, Manod, Mr Griff Roberts, Tŷ Gwyn a Mr Gwilym Williams, Penrhos, wedi dychwelyd adref o'r ysbyty. Da deall eu bod yn parhau i wella.

YMDDEOLIAD – Dymuniadau gorau i Mr J.G. Cadwaladr, 7 Gwêl Fynydd, a Mr Gwilym Williams, Bryn Eifion, ar eu hymddeoliad.

DIOLCH – Dymuna Dafydd Idriswyn Roberts ddiolch o galon i blant, rhieni a holl weithwyr ysgol Llanrug am eu rhodd ac am eu dymuniadau da iddo ar achlysur ei ymadawid o'r ysgol. Diolcha hefyd am bob cydweithrediad a charedigrwydd a gafodd tra'n aelod o staff yr ysgol.

YR YSGOL FEITHRIN: Mae'r tymor wedi ail-ddechrau gyda deuddeg o blant. Er i'r Pwyllgor hysbysebu am athrawes ar gyfer y tymor newydd, ni dderbyniwyd yr un cais, a rhaid diolch i Mrs Rhian Jones am ymgymryd â'r gwaith tan y Nadolig. Yn ei chynorthwyo gyda'r gwaith mae Mrs Maureen Williams.

CYFARFOD Y CHWIORYDD Cynhaliwyd cyfarfod y chwiorydd yn Festri Pontrhythallt, prawn lau, Medi 20, gyda Mrs Williams, Bodfan yn llywyddu. Dechreuwyd y gwasanaeth gan Mrs Williams, Gwelfryn, a rhoddwyd y te gan Miss B. Williams, Glan Padarn a Mrs A. Smith, Llechwedd. Pasiwyd i gael 'Panel ac arwerthiant' nos Wener, Tachwedd 2.



John ac Eirwen Rowlands, Llys Forgan, Ffordd yr Orsaf, a ddathlodd eu priodas arian yn ddiweddar.

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!



Band Llanrug 1931. Tybiwn mai ym Mhorthcawl y tynnwyd y llun, ond beth oedd yr achlysur, a beth yw arwyddocad yr afr? Diolch i Mr Iorwerth Jones, Caernarfon am y llun.

O! Seren Glir ar yr Eira Gwyn

TEYRNGED GAN Y PARCH HARRI PARRI

Pan gollodd Sally y dydd – os mai dyna'r ymadrodd teg – yn Ysbyty Clatterbridge, yn hanner cant a dwy, fe gollodd Llys Beuno frenhines o wraig a mam, fe gollodd Pwyllgor Addysg Gwynedd athrawes ddiwyd, fe gollodd Capel Seilo un o'i ffyddloniaid anwyla' ac fe gollodd tre Caernarfon (heb fod pawb yn gwybod hynny) un o'i deiliaid gorau.

Pechod parod wrth goffáu – boed hynny o bulpud neu ar bapur – ydi rhoi gormod o baent ar y brws, ond fy ofn i ar hyn o bryd ydi peintio pictiwr llai na theilwng o'r ddiweddar Sally Williams, Llys Beuno, Ffordd Hamton.

Mae 'na luniau ohoni na welais i erioed mohonynt. Y cyfnodau pell yn ôl rheini, erbyn hyn, pan oedd hi'n blentyn yn y Cwaliau ger Llanrug neu'n ddisgybl yn Ysgol Brynrefail, yn fyfyrwraig yn Wrecsam, athrawes ifanc yn Lerpwl neu'n wraig a mam ifanc yma yng Nghaernarfon. Fodd bynnag, mae 'na ddigon o ddarluniau eraill ar gael a'r rheini'n werth eu fframio bob un.

Gwn y bydd ambell un yn trysori ambell i gartwn. Gallai Sally – yn arbennig yng nghwmni ei ffrindiau gorau – fod yn ddireidus o ddoniol. Fel y byddai'r llygaid 'na yn pefrio yn y pen ac yna hyrddiad o chwerthin iach wrth iddi gael cam gwag arall. Gallai chwerthin am ei phen ei hun. Gwnaeth hynny, ganwaith.

Darluniau gwahanol fydd gen i. Fe'i bendithiwyd â doniau lu ac fe'u defnyddiodd yn hael, yn arbennig o hael er lles y capel a'r 'Achos'. Fe'i gwelais yn ennill calon plant Seilo sawl tro, wrth eu hyfforddi i lefaru'n weddol daclus neu ddangos iddyn nhw sut i blygu angylion papur at y Dolig, ac ambell un o gyffiniau Ysgol yr Hendre yn sibwr yn falch wrth ei gymydog o ben arall y dre – 'Musus Bleddyn ni, ia!'

Wrth gwrs, gallai Sally lefaru'n dda ei hunan, boed hynny oddi ar lwyfan neu o bulpud, i feicroffon neu o flaen camera. Gwnaeth hynny, hefyd, ganwaith. Am ryw reswm fe'i clywaf o hyd, flwyddyn i'r Dolig diwetha', yn adrodd Baled y Pedwar Brenin i lond capel o ffyddloniaid oedfa'r bore.

O bedair gwlad yn y Dwyrain poeth Cychwynnodd y pedwar brenin doeth Am eira'r Gorllewin, dan ganu hyn: O! Seren glir ar yr eira gwyn.

Cafodd flas a rhoddodd wefr i eraill wrth gyflwyno rhai o basiantau llwyddiannus Cymdeithas y Gronyn Gwenith. Ni wnâi ddim heb baratoi'n drylwyr, drylwyr. Sawl gwaith ynghanol asbri'r perfformiadau hynny y gofynnodd i Weinidog Engedi – 'Newch chi wrando arna' i'n deud hwn eto ... plis?' Wedyn, cerdded yn fân ac yn fuan o'r tywyllwch i'r llafn golau, plannu'i sodlau i bren y llwyfan a llefaru'n groyw ac effeithiol.

Hoffwn, o waelod calon, petai'r darlun ola' sydd gennyf ohoni heb ei dynnu. Ymladdodd yn siriol o ddewr am fisoedd hirion yn erbyn afiechyd y gwyddai gymaint amdano gan ddioddef poen dirdynol ar brydiau, a hynny'n fendigedig o foneddigaidd. Roedd Sally yn un o'r rheini a fedrai wenu yn Saesneg yn ogystal, a gwnaeth hynny nes bod angylion hen-gynefin yr ysbyty yn sylwi ac yn sôn am heulwen ei gwên.

Fy mraint i fu ceisio bod yn weinidog iddi a dysgu ganddi. A fi, nid Bleddyn a Sally, a fu'n poeni efo pam ac yn gofyn i be? Cefais gyfle ddydd yr angladd i sôn am loywyder ei ffydd. Beth bynnag, stori breifat yw honno.

Roedd yno Un mewn angau loes
A milwyr Rhufain wrth Ei groes;
Ond gloywach fyth na'u gwaywffyn
Oedd y Seren a fu ar yr eira gwyn.

Mae gan Bleddyn a Delyth; ei mam a'i brodyr a'i chwiorydd; luniau lawer ohoni. Eich braint chithau, o dro i dro, fydd dangos y cip yma a'r cip arall i ffrind a chymydog cyn eu lapio yn ôl yn ofalus a'u trysori yn albwm y co'.

EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANRUG

NEUADD YSGOL

BRYNREFAIL
HYDREF 13eg

Cystadlu i ddechrau am 10.30
a 5.30

Pris tocyn 50c y cyfarfod
Plant 10c – talu wrth y drws

ATGOFION AM ARDAL CLWT-Y-BONT

gan Mrs Buddug Griffiths, Llanfaircaereinion

Diolch o galon am sylwadau caredig y Parch D.H. Pritchard a Mr Ifor Williams, ac am lythyr Mrs Gracie Owen ar ôl yr hen atgofion am Glwt y Bont.

Enwodd Mr Ifor Williams y tyddynnod gan gynnwys Hafod Gau. Dyna'r enw cywir ac nid Hafod y Gan. Os ewch am dro ar hyd Lôn Top fe welwch wal hir yn ymestyn ymhellach na Hafod Gau i un cyfeiriad, ac ymlaen trwy'r creigiau i'r cyfeiriad arall, at rywle rhwng y ddwy inclên. Yn yr hen amser dyma glawdd terfyn rhwng Stad yr Arglwydd Penrhyn, a stad Arglwydd Newborough (Glynllifon), ond prynwyd hwynt gan y Faenol. Ni wn y dyddiad, ond efallai mai ar ôl hyn yr agorodd y Faenol y chwarel.

Fe geisiodd rhywun gloddio am gopr neu blwm, o dan y rhan o'r ffordd sydd yn gul iawn, a dynjwn un ochr iddi.

'Gwaith mein' y galwem y rhan yma bob amser. Adroddai fy nhad yr hanes a ganlyn am Hafod Gau, a ddigwyddodd cyn ei amser ef. Ceisiodd rhywun godi tŷ 'undydd unos' ar yr ochr uchaf i'r wal, ac yn ei chysgod, ond deuai swyddogion o hyd, a lluchio'r cyfan dros y wal i'r stad arall, ond ar ôl ymdrechu'n hir, fe lwyddodd y teulu i gael mwg trwy'r simdde. Felly Hafod wedi ei chau yw 'Hafod Gau'.

Adeladwyd y tŷ a welir heddiw yn ddiweddarach, a defnyddiwyd y tŷ cyntaf fel beudy. Arferai coeden gonsers dyfu wrth ei dalcen, a sleifi'r hogiau yno i'w hel. Ni welwch y lle o unman bron, nes dod at ei ymyl. Lle twt iawn oedd Hafod Gau, ac yn wahanol i dyddynnod eraill, yr oedd perllan o'i flaen gyda choed eirin ac afalau, heblaw'r cwsberis a'r chyrants duon arferol. Temtasiwn arall i fechgyn y fro.

Mrs Mary Ann Griffiths oedd yn byw yno pan oeddem ni'n blant. Gorfu i'w mab William ymuno â'r fyddin, fel llanciau eraill y fro, na fuont erioed o'r ardal gynt.

Yng ngaeaf 1916-17, cawsom gnwd mawr o eira, a ninnau blant wrth ein bodd yn gwneud llwybrau trwyddo i'r pwll, i'r ffynnon, ac at y lôn top, a dyna lle roedd Mary Ann yn gwneud llwybr trwy'r eira, er mwyn i'r postman allu dod â llythyr oddi wrth Wil.

Aethom ni i'r tŷ i gael te pan oedd yn dechrau tywyllu. Yn sydyn clywsom sŵn crïo dychrynlyd. Mary Ann oedd yna gyda llythyr yn ei llaw ac O.H.M.S. arno. Nid oedd wedi ei agor, ac ni allai ddarllen, ond gwyddai ei gynnwys. Darllenodd Mam ef iddi. "Missing, believed killed" yn yr Aifft. Ni

chafodd fwy o fanylion a thorrodd ei gofid ei chalon, a bu farw.

Tua 1922-23 yr oedd wyres iddi yn gweithio mewn gwesty yn Llandudno, lle'r arhosai swyddog uchel o'r fyddin. Wrth siarad ag ef deallodd mai efo oedd yng ngofal y gatrawd lle roedd William. Addawodd geisio cael y manylion. Ymhen hir a hwyr daeth 'snap' o'r groes ar ei fedd, a'i enw a'i rif arni. Iddo farw o afiechyd, a'i ddymuniad olaf oedd, i rywun roi blodau ar ei fedd ar Sul y Blodau i gofio am ei fam, a bod hynny'n cael ei wneud bob blwyddyn. Stori drist ynte.

Bydd dwy erthygl arall am ardal Clwt-y-bont yn ymddangos yn ystod y misoedd nesaf. (Gol.)

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael tuag at gostau cynhyrchu'r Eco.

£5 - Di-enw, Llanberis; D.M. Jones, 17 Lôn y Bryn, Caernarfon er cof am ei thad a'i mam, Mr a Mrs W.T. Jones, Clwt-y-bont.

£3 - Nia Jones, Minffordd, Ffordd Tŷ Du, Llanberis.

£2 - Mrs N. Jones, 2 Llys y Gwynt, Penisarwaun; Di-enw.

£1 - Lynda a Gwyn Owen, Mynydd Llandegai; Cheryl ac Andrew Ward, Deiniolen; Mrs L. Williams, 20 Hafod Oleu, Deiniolen; Iwan Lloyd Roberts, Tai Fictoria, Deiniolen; Mr a Mrs Taylor, Fron Ganol, Deiniolen; Mr a Mrs V. Williams, 3 Rhes Faenol, Deiniolen; Mr a Mrs O. Roberts, Elidir View, Llanrug. 50c - Di-enw.

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

GRŴP MAM A'I PHLENTYN - Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp yn y Neuadd ddydd Mercher Medi 5 rhwng 9.30 a 11.30. Estynnir gwahoddiad cynnes i unrhyw fam a'i phlentyn ddod draw i'r cyfarfodydd.

Y CÔR - Mae'r côr bellach wedi ailgychwyn ymarfer yn yr ysgol ar nos Sul am 8 o'r gloch. Dechreuir y tymor eleni gyda Mrs Glenys Griffith fel arweinydd dros dro hyd nes y ceir arweinydd parhaol newydd. Bydd y côr yn cystadlu yn Eisteddfod Caernarfon nos Sadwrn nesaf a dymunir pob llwyddiant iddynt.

Estynnir gwahoddiad cynnes i'r aelodau newydd ddod draw i'r ymarferiadau yn yr ysgol.

Y CARNIFAL - Nos Fawrth, Medi 11, ym mhwyllgor y Carnifal cafwyd adroddiad ariannol manwl gan y trysorydd Mr Ieuan Williams, Llain yr Ardd. Penderfynwyd rhannu elw carnifal 1984 rhwng y Neuadd, yr ysgol, y Clwb Ieuenctid a'r Clwb Snwcer.

BEDYDD - Ddydd Sul 23 Medi, bedyddiwyd mab Mr a Mrs Glyn Roberts, Gwynfryn, yn ystod oedfa'r bore yng nghapel Cysegr, gan y gweinidog, Mr W.R. Williams.

MERCHED Y WAWR - Nos Fercher, Medi 12, agorwyd tymor eleni yng nghwmni Cangen Bethesda gyda rhaglen nodweddiadol ar fywyd a gwaith R. Williams Parry. Croesawyd yr aelodau hen a newydd gan y Llywydd, Mrs Glenys Griffiths. Diolchwyd i'r ymwelwyr gan Mrs Mair Price. Cafwyd swper wedi ei baratoi gan aelodau'r pwyllgor, ac enillwyd y raffl gan un o Fethesda.

Yn y cyfarfod nesaf ar Hydref 10, daw cangen Rhiwlas atom ynghyd â Mr Richard Lloyd Jones, Bethel, fydd yn cadeirio cwis rhwng y ddwy gangen.

YR YSGOL FEITHRIN - Ffarweliwyd â'r athrawes Mrs Lynwen Morris o'r ysgol, a diolchwyd yn fawr iddi am ei gwaith dros y blyneddau. Yr athrawes newydd yw Mrs Rita Williams, gyda Mrs Margaret Rees yn dychwelyd i'r ysgol. Dymunwn y gorau i'r ddwy, a hyderwn y bydd yr ysgol feithrin yn dal mor llwyddiannus ag erioed.

PRIODAS - Ddydd Sadwrn, 15 Medi, yn Eglwys Llanddeiniolen, priodwyd Mr Maldwyn Hughes, 2 Ty'n Llan Uchaf a Miss Lola Roberts. Dymunwn

briodas hapus iawn i'r ddau.

Ffilmwyd y briodas fel rhan o raglen deledu ar Mr Roberts, Penrhos, sy'n cael ei darlledu ar S4C ar Dachwedd 3.

Ddydd Sadwrn, Medi 22, priodwyd Mr Harold Owen, 18 Cremlyn a Miss Williams, Llanrug, dymuniadau gorau i'r ddau.

YR EISTEDDFOD - Cofiwch y dyddiad, Tachwedd 3! Cynhelir yr Eisteddfod yn y neuadd bawn a nos Sadwrn. Y beirniadau yw: Adrodd a Llên - Mr Gwilym Hughes, Llandwrog; Cerddoriaeth - Einir Wyn Owen, Rhiwlas; Arlunio - Mr G. Gainsburgh, Bethel; Gwnïo a Choginio - Mrs Eleanor Moses, Caergeiliog; Gwaith Llaw - Mr D. Evans, Penisarwaun. Yr un rhaglen sydd i'r Eisteddfod â'r llynydd. Os oes unrhyw broblem cael un, cysylltwch â Miss Myfanwy Jones, Glan Gors.

NOSON GOFFI - Medi 28, cynhelir noson goffi a'r elw at y Neuadd Goffa. Os oes gennych unrhyw beth i'w gyfrannu i'r noson gellwch eu gadael yn nhŷ Mrs Mair Read, Llwydiarth, neu Mr Geraint Elis, Cilgeran.

CLWB IEUENCTID - Mae'r Clwb yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos y gaeaf yma. Nos Lun a Nos Iau yn y Neuadd. Mae'r arweinydd, Richard Lloyd Jones, yn estyn croeso i bobl ifanc ysgolion Uwchradd y cylch.

DAMWAIN - Rydym yn falch o weld Trystan, mab Ann a Bil Evans adref o'r ystyby wedi'r ddamwain o flaen ei gartref, pan gafodd ei daro gan gar. Mae digwyddiad o'r fath yn ein hatgoffa i gyd pa mor ofalus sy'n rhaid i ni fod wrth yrru o amgylch y pentref.

CLWB PÊL-DROED - Mae'n braf gweld y tîm pêl-droed yn chwarae adref go iawn y tymor yma ar eu maes newydd yn y Cae Sioe. Siawns na welir mwy o gefnogaeth i'r Clwb gan bentrefwyr Bethel.

PRIODAS - Ddydd Sadwrn, Medi 29, bydd Miss Beth Jones, merch ieuengaf Mr a Mrs Islwyn Jones, Tŷ'r Ysgol gynt, yn priodi yng Nghapel y Cysegr. Dymunwn y gorau iddi hi a'i darpar ŵr.

YR HYDREF

Gwaedlif ddifera'r goedlan, - rhed i'r ffrwd

Aur a phres ac arian,
A'r haf dall wrth fynd allan,
A ddyry'i dŷ hardd ar dân.

AP HEFIN

AR WERTH

Cottage 3-piece suite ar werth - £20.00. Ffoniwch Llanberis 870917.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

M. ROWLANDS MONUMENTAL MASONS

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2898

(Sefydlwyd ers dros 35 mlynedd)

Creffftwaith llaw, e.e., Old English/Gothic gan un â thros 32 o flynyddoedd o brofiad

Cerrig newydd a gwaith adnewyddu:
dim ots pa mor bell

Stoc helaeth o'r cerrig gorau:
dyfynbris am ddim

AR AGOR 6 DIWRNOD YR WYTHNOS



STRYD FAWR, DEINIOLEN Ffôn Llanberis 871210

Creffftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd creffftau lleol eraill: crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol. Arddangosfa o hen luniau chwarel.

Ar agor 9.30 am - 9.30 pm

Y BWS YSGOL

atgofion teithio gan Goronwy Owen

'Tickets, tickets', galwai William Huw, Pentre Castell, o ben blaen y bws, gan ddechrau ar ei waith answyddogol fel condyctor. Mynd adre ar ddiwedd y dydd, roedden ni, y rhai mwyaf fel arfer yn y seti cefn, bechgyn a merched yn gymysg; ond y ni, y rhai lleiaf yn griwiau ar wahân, gymaint ag oedd bosibl, mewn lle mor gyfun. Aeth pawb i chwilio am 'i dicad. Ar fysiau D.M., bryd hynny, prynem docyn dwy geiniog oedd yn ein cario, nid yn unig i'r ysgol, ond gartre hefyd. Llauer i brynhawn, nid oedd condyctor hefo pwnsh ar y bws, ac felly deuai William Huw, neu Robin Davies o gwmpas i dorri pisin bach crwn hefo'u bys a'u bawd o ochor y ticad. Buan iawn y sylweddolasom ni, nid yn unig y gallem wneud hyn ein hunain yn eu gwydd, ond o roi ein bys a'n bawd dros y twll mewn hen dicad, gael reid am ddim, ac ennill ceiniog i'w wario. Oeddem, roedden ni'n gnafon bach drwg, ond mawr oedd y demtasiwn. Ys gwn i wnaeth rhywun egluro'r tric i Robin neu William Huw?

Roedd gan D.M. yr amser hyn, un hen fws arbennig hefo palis a drws gwydr yn ei rhannu'n ddwy. Uwchben y drws, ysgrifennwyd *Smokers please occupy rear compartment*.

Sut y cadwodd y drws erioed heb dorri, wn i ddim, oherwydd roedden ni drwyddo nôl a blaen fel ffair gacwn meirch. Hwn oedd y bws fethodd â mynd i fyny Allt Chwarel Glyn un bore gwlyb oer. Araf iawn yr âi i fyny bob bore, arafach na traction flawd Morris & Jones. Rhaid fod y tywydd mwll yn effeithio mwy nag arfer arni y bore hwnnw. Tagodd a phesychodd ei ffordd i'r man lle roedd dibyn ar y ddwy ochor. Yna peidiodd yr injan a dechreuodd ein cerbyd redeg yn ôl yn wrthgefn. Wrth ryw lwc, aeth a'i gefn i'r wal yr ochor isai'r twll, a gadael tolc dda ynddi hi, tolc a fu yno am flynyddoedd, ac hyd y gwn i sydd yno o hyd. Wedi tipyn o anogaeth, cripiodd i fyny'r gweddill o'r allt, ac yn ei flaen i'r ysgol. Coeliwch fi, doedd yna ddim panic, dim ond rhyw ddistawrwydd syfrdan.

Cofiaf yn dda, fwy nag unwaith fynd i chwarae pêl droed i Langejni. Hon oedd yr unig gêm ganol wythnos fyddai'n cael ei threfnu, ac fe fyddai'r tîm hoci yn dod hefyd. Ynghanol y siarad a'r cyffro, byddai 'hwre' fawr yng ngwaelod Nant y Garth, tra âi'r gyrrwr dros y wal i'r afon efo tun i nôl dŵr, a'i dywallt i grombil peiriant ein llong ofod. Ar y ffordd yn ôl, a'r nos wedi disgyn, arhosai yno eto - ie, i ail-lenwi â dŵr, ond gwaeth fyth, i'n gorfodi ni fechgyn i fynd allan i leihau baich y bws, a cherdded y tri chwarter milltir i fyny i'r gwastad.

Cawsom hwyl anarferol un tro,

wrth weld fod Huw Mack wedi cuddio ymysg y merched yn y set gefn, ac yn mwynhau ei hun yn gwneud stumiau arnom ni, gerddwyr truan, trwy'r ffenest, ond fe ddiplannodd o'r golwg fel seren wib, pan sylweddolodd fod Jones Cem yn un o'r rhai oedd yn 'i throedio hi. Nid oedd Pont y Borth bryd hyn wedi'i hatgyfnerthu, ac felly, ni fechgyn hefyd oedd yn gorfod disgyn o'r bws i'w hysgafnhau, a cherdded drosodd, nôl a mlaen. Doedd hyn ond rhan o'r sbort.

Ond, nid sbort oedd hi pan stopiodd dybl decar Crosville yng Nghoed Doctor. Un munud, roedd y llawr ucha yn berwi o hwyl a chadw reiat, a'r munud nesaf, roedden ni i gyd fel delwau bach yn eistedd yn ein seddau. Fyddai menynddim wedi toddi yn ein cegau.

Paham? Wel, yn y rhialtwch, roedd bag ysgol ar gefn un o'r hogiau wedi torri un o'r ffenestri yn ddarnau. Daeth Now Bach Ashton ac Ifan Motor i fyny'r grisiau fel dau gommando.

'Pwy dorrodd y ffenest?'

Dim ateb.

'Deudwch pwy dorrodd y ffenest.'

Neb yn symud.

'Mi riportia ni chi i'r Head Master.'

Llais tawel un o'r rhai hyna o'r set gefn. 'Un o frigau'r coed'nath i' tharo hi.'

Côr unfrydol o leisiau 'la, y goetan'nath i' thorri hi. Brigyn coeden dorrodd y ffenest.'

Roedd yna lond bws o blant yn dystion pendant di-syfl. Chlywsom ni ddim mwy, a'r wythnos wedyn, daeth dynion i docio tipyn ar y coed. Mae lwc



dda a mellten yn debyg iawn i'w gilydd. Dydyn nhw byth yn taro'r un lle ddwywaith. Roedden ni'n

ddigon doeth i gofio hynny. Dydw i ddim yn cofio gweld yr un ffenest arall yn cael ei thorri.

Y DRINGWR

Joc Genelli oedd ei enw, mab i deulu o Eidalwyr a oedd yn masnachu yn ninas Lerpwl. Bu gyda'r fyddin yn gorchfygu'r Eidal, a chafodd amser braf yno gan y medrai siarad yn drwyadl iaith y wlad. Etifeddodd fusnes ffrwythau ar ôl ei rieni, ond ni allai Joc drigo mewn tŷ o feini a mortar, a daeth yn ddyn reit gyfoethog i fyw mewn pabell yn Nant Ffrancon, ac i gael dringo creigiau Tryfan a Chegin y Cythraul a'r Gluderau. Meddai wrthyf, "You know, I'd like to die with my climbing boots on." Ni wn beth fu ei hanes, efallai ei fod yn dal yn fyw. Gofynnais iddo unwaith, a oedd yn debyg o briodi. Yr oedd ganddo ddwy amod cyn gwnâi - byddai rhaid iddi fod yn Gymraes, ac y hoff o ddringo. Cafodd ei ddymuniad, priododd ferch o Feddgelert, ac aeth y ddau i gadw hostel y Snowdon Ranger.

Pan yn Llanberis, cefais gyhoeddiad gyda'r Hen Gorff yn Rhyd-ddu a Betws Garmon, a phenderfynais gerdded yno fore'r Sul trwy Fwlch Masgwrn (mae blas Gwyddelig ar yr enw, ond efallai mai llygriad yw o Maesgwm, gan fod y cwm fel maes o esmwyth). Gelwais yn y Snowdon Ranger i weld Joc a'i briod. Pan gyrhaeddais yno yr oedd Joc wrthi yn brysyr yn cychwyn pobl ar y llwybr i fyny'r Wyddfa. Rhoddodd y gorau iddi, a chawsom sgwrs hir am yr hen ddyddiau.

Nid oes gennyf y syniad lleiaf am ei hanes - efallai ei fod yn dal yno! Ond digon prin, daeth henaint heibio Joc fel finnau!

Y Parch L.G. Roberts, Caernarfon (Llanberis gynt)

(Y ddwy stori gan y Parch L.G. Roberts)

Bistro
45 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871 278

(Danny a Nerys Roberts)

Pryd gorau'r fro a mwy o le i'w fwyta



BECWS
DEINIOLLEN
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

GAUCHO!



Darlun yw hwn o'm hewythr, Ellis Williams, gynt o'r Gors Llanddeiniolen, pan oedd yn gaucho ym Mhatagonia. Roedd yn ewythr hefyd i Mrs Ina Jones, Bod Ifor, Llanrug.

Roedd yn byw gyda'i rieni a'i ddwy chwaer, a'm tad, yn y Gors ar droad y ganrif. Roedd y tir a'r gwylltffilod bryd hynny i gyd yn eiddo i Stad y Faenol. Daliwyd ef yn herwheila a chafodd fy nhaid y dewis o'i anfon o'r wlad neu gael ei droi allan o'i gartref. Rhagor nag i hynny ddigwydd aeth Ellis i'r Wladfa er mwyn achub y fferm. Bu yno nes gorfodwyd ef i ymuno â byddin yr

Ariannin, Osgôdd wneud hynny drwy ddianc i Awstralia lle y sefydlodd fferm ddefaid. Ond pan ddaeth y Rhyfel Mawr (1914-18) daeth trosodd gyda'r Anzacs i Ffrainc i amddiffyn yr un gyfundrefn â'r hon a'i hanfonodd i ffwrdd.

Lladdwyd ef ar y Somme ym 1918 ym mrwydr Hangard Woods pan oedd yn 38 mlwydd oed. Roedd yn aelod o batrôl wedi ei ddatgysylltu oddi wrth ei uned, meddai fy nhad, a chafodd ei saethu gan sneipar. Mae hynny yn debygol, achos pan euthum unwaith un canol gaeaf gyda'm gwraig i berfeddion gwlad y Somme i chwilio am ei fedd daethom o hyd iddo ar ôl trafferth mewn mynwent fechan, fel gardd, ar gwr Coed Hangard. Roedd yno ddau arall, (un corporal) o'r New South Wales Light Infantry. Ffrancwyr oedd y gweddill i gyd.

Mae ei enw ar feddfaen fy nhaid a nain, Gors, ym mynwent Llanddeiniolen, ynghyd â'r englynion isod gan Dewi Orwig:

Â'r fyddin uno'n wirfoddol - a wnaeth
Yn yr ornest farwol;
Ellis wr annwyl siriol,
I lawr aeth, wylir o'i ôl.

Ei einioes wladgar oesydd - a roddodd
Dros ryddid i'r gwledydd;
Mewn llannerch bell mae'n llonydd,
Yno ein serch ninnau sydd.

JOHN ELLIS WILLIAMS
Y Gors, Allt Riwth, Pontrhyallt

Y CI

Gwelais ei berchennog am y tro cyntaf yn eistedd yn sêd fawr Capel Jerusalem, Llanberis. Dyn bychan, eiddil a gwydrau ganddo i weld y bach yn fwy, ac yn siaradwr dihafal. Penderfynodd gael ci, nid un bach, disylw a fyddai, ond clamp o Alsatian mawr, ysgwyddog. Meddyliai John Thomas y byd ohono, a soniai yn aml am gampau'r ci, ac am y ddisgyblaeth a oedd ganddo arno. Er hynny, sylwai pobl mai y ci oedd yn mynd â John Thomas am dro, ac nid John Thomas yn mynd â'r ci.

O ran ymyraeth, yn fwy na dim, penderfynais ar noson oer o aeaf y byddwn yn galw i weld J.T. ac i gael gwybod sut ddisgyblaeth a oedd ganddo ar ei gi. Curais ar y drws, a chlywn gyfarthiad trwm y ci yng nghefn y tŷ. Wedi cryn aros gofynnodd J.T. pwy oedd yno. Atebais mai'r gweinidog oedd am ei weld. Mynnai gael amser i gau y ci yn y gegin gefn, cyn fy ngalw i

Caernarfon; Llanberis gynt)

NORMAN JONES

4 Tai Disgwylfa
LLANRUG

Ffôn:
CAERNARFON 3476
GLANHAWR
FFENESTRI

* Siopau * Tai *
* Swyddfeydd *
Gwestai * Ffatrioedd
Yswiriant Llawn
Hefyd peintio - tu fewn a
thu allan

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen
Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

TŴR EGLWYS CRIST LLANDINORWIG



Ar ôl y daeargrynfeydd diweddar, bu llawer yn pryderu ynglŷn â thŵr trawiadol Eglwys Crist Llandinorwig. Cred rhai i'r tŵr wyro i un ochr yn sgil yr ysgydwad. Oherwydd hyn, trefnwyd i 'steeplejacks' o Fanceinion archwilio'r adeiledd. Gwelir yn y lluniau uchod ddau o'r cyfeillion yn atgyweirio rhan o'r cludydd mell. Bu'r ddau wrthi am rai oriau yn gosod ysgolion ac yn perfformio pob math o driciau ar y tŵr.

Diolch i'r drefn, ni ddarganfyddwyd unrhyw ddifrod fel canlyniad i'r daeargrynfeydd. Bu tywydd garw'r ardal yn drymach ei effaith ar yr hen dŵr. Yn anffodus, fe'n gorfodir fel Eglwys i wario oddeutu £3000 nid yn unig i gadw'r tŵr mewn cyflwr diogel, ond i arbed rhagor o ddifrod i'r Eglwys sy'n ffurfio sylfaen i'r tŵr.

Wrth weld y steeplejacks yn dringo'r Eglwys bu rhai yn cofio eraill yn cyflawni'r un gamp flynyddoedd yn ôl. Credaf i nifer o hen blant yr Ysgol Sul ddringo'r tŵr tra oedd yr adeiledd yn cael ei atgyweirio. Diddorol fyddai clywed am yr helynt a darllen yr hanes yn nhudalennau'r Eco. Dengys yr hanesion a glywais i mai agwedd

tragwyddol ar fywyd yw plant drwg.

Fel yr eglurais, bydd rhaid gwario swm sylweddol ar y tŵr. Mae'n siŵr y bydd y Cyngor Plwyfol Eglwysig yn lansio Apêl yn y dyfodol agos, ond os ydych am ein cynorthwyo yn ariannol, da chi cysylltwch â mi neu â'r Wardeniaid. Fe'n gorfodir i gryfhau Cronfa Atgyweirio Eglwys Crist Llandinorwig o ganlyniad i'r gost a ddatgelir uchod.

Stori gan y Parch Aled Edwards

G. JORDAN

CEFN ELAN LLANRUG

I fenthyg
cymysgwyr
concrit, cludo
llwythi ysgafn,
clirio safleoedd a
sbwriel ac am
dywod, gro, brics
ynghyd â gwaith
trydanol fel o'r
blaen

Ffoniwch:
CAERNARFON
3581

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)

GWAELEDD - Bu Mr Maldwyn Hughes, 2 Bryn Gro, o dan driniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon yn ddiweddar. Dymunwn wellhad buan iawn iddo.

DIOLCH - Dymuna Mr a Mrs Sam Jones, Bron Eryri, ddiolch i'w perthnasau a chymdogion am bob caredigrwydd a dderbyniodd Medi ar ôl ei damwain. Dymunant ddiolch yn arbennig i Mrs Eryl Roberts, meddyg a gweinyddesau Ysbyty Môn ac Arfon ac Ysbyty Eryri, a hefyd i wŷr yr ambiwlans.

UNDEB Y MAMAU - Cynhaliwyd taith ddîrgel aelodau Eglwysy Sant Mihangel a Sant Gabriel a'u ffrindiau, nos lau 6 Medi.

Cychwynnodd y daith yn Llanrug, yna i Gwm-y-Glo a thrwy fwch Llanberis ac ymlaen i Gorwen.

Treuliwyd y noson yng Ngholeg Orissor (hen wercws Corwen). Cawsom arddangosfa ar waith gwllân, gwaith clwt, gwneud canhwylau ac amryw o bethau eraill.

Yna mewn grwpiau bychan cawsom fynd drwy'r hen wercws i weld y newidiadau oedd wedi cael eu gwneud. Yr oedd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi ac i ddiweddu

cawsom gyngerdd wedi ei drefnu gan aelodau o'r Coleg.

YR YSGOL GYNRADD - Ar ddechrau'r tymor yr oedd Mr Dafydd Idriswyn Roberts yn dechrau yn ei swydd fel prifathro'r ysgol, a Mrs Eirian Howells yn dechrau fel athrawes yn y dosbarth iau.

Croesawn hwy i'n plith a dymunwn iddynt bob llwyddiant yn eu gwaith a hyderwn y byddant yn hapus yma yng nghwmni plant a phobl y cwm.

CLWB POBL Y CWM - Cychwynnwyd tymor y gaeaf gyda gwibdaith i Landudno, lle mwynhawyd diwrnod plaserus, rhai i siopa, ac eraill i dorheulo ar lan y môr. Dychwelwyd hyd ffordd Llanrwst, ac aros ychydig am banded ym Metws-y-Coed cyn cychwyn adref dros fwch Llanberis.

Yng nghyfarfod pnawn lau, Medi 13, cafwyd cwis ar wybodaeth gyffredinol wedi ei drefnu gan Mrs K. Watkins, a diolchwyd iddi gan y llwydd, Mr Llew Hughes. Rhoddwyd y te gan Miss E. Hughes a Mrs E. Hughes, a'r raffl gan Mrs R. Rowlands. Enillwyd y raffl gan Mr H. Pritchard.

Bydd y cyfarfod nesaf bnawn lau Medi 27, ac estynnir gwahoddiad i aelodau newydd ddymuna ymaelodi â'r Clwb.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

LLONGYFARCHIADAU i Miss Enid Wyn, Llety Llwyd ar ei llwyddiant yn ei harholiadau terfynol yn South Glamorgan Institute of Higher Education. Y mae Miss Wyn er oes wedi sicrhau swydd yn Ysbyty Gwynedd ac wedi dechrau ar ei gwaith. Pob dymuniad da i'r dyfodol iddi.

DIOLCH - Dymuna Mrs Nancy Jones, 6 Tai Bryngwyn ddiolch i deulu, cyfeillion a phawb fu'n garedig wrthi, yn anfon anrhegion a chyfarchion iddi tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl iddi ddod adre. Erbyn hyn mae Mrs Jones wedi gwella'n dda.

CROESO ADRE i Mrs Beth Jones ar ôl bod yn yr ysbyty. Da deall ei bod hithau'n gwella'n foddhaol. Ein dymuniadau gorau am lwy iachad buan.



Tynnwyd y llun hwn o blant Ysgol Sul Tan-y-coed yng Nghyfarfod Gwobrwy'r Plant bnawn Sul, Gorffennaf 15, gan eu gweinidog y Parch John Morris.

DESMOND TUTU I YMWELD Â CHYMRU

Derbyniodd yr Esgob Desmond Tutu, Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Eglwysy De'r Affrig, wahoddiad i ymweld â Chymru yn 1986. Yr achlysur fydd Gŵyl Gristnogol a drefnir gan Gyngor Eglwysy Cymru a Chomisiwn yr Eglwysy Cyfamodol. Fe fydd Tutu yn pregethu yn yr oedfa ddathlu fydd yn cloi **Teulu Duw '86** ac yn cynnal gweithdai, ac astudiaethau beiblaidd yn ystod y dydd. Yn ogystal trefnir iddo ymweld ag ardaloedd ar draws Cymru i annerch cyfarfodydd, seminarau ac yn y blaen. Dyma gyfle unigryw i ni gyfarfod ag un o arweinwyr Cristnogol mwyaf ein dyddiau ni.

Cynhelir yr Ŵyl ar Fai 24, 1986 ar Faes Sioe Amaethyddol Cymru yn Llanellwedd. Gobeithir y bydd Eglwysy a Chynghorau Eglwysy ledled Cymru yn trefnu bysiau i Llanellwedd, fel y gall Cristnogion o bob oed a phob man rannu yn y dathliadau. Disgwylir miloedd o bobl i fod yno.

Bwriedir i'r Ŵyl fod yn gyfle i hwyl ac adnewyddiad Cristnogol.

Trefnir gweithgareddau bywiog i blant ac ieuencid. Fe fydd nifer o eglwysy a mudiadau Cristnogol yn cynnal arddangosfeydd a gweithgareddau i ddiddori pob oedran ac i gynorthwyo cenhadaeth a bywyd yr Eglwysy. Fe fydd bandiau, grwpiau, offerynwyr a chorau yno i arwain y dathliadau ac fe drefnir nifer o gystadlaethau. Bydd cyfle hefyd i rannu mewn gweithdai ac yn y blaen, fydd yn canolbwyntio ar y thema, Teulu Duw.

Er mwyn ein cynorthwyo i baratoi ar gyfer yr Ŵyl y mae pecyn o adnoddau yn cael ei baratoi i'w ddefnyddio gan Eglwysy lleol yn ystod y flwyddyn nesaf. Bydd ar gael yn ystod mis Mai 1985 oddi wrth Gyngor Eglwysy Cymru a gobeithiwn y bydd grwpiau yn ei ddefnyddio o fis Medi ymlaen.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Mary Davies, 9 Llys-y-gwynt (872329)

DIOLCHIAIDAU - Mae Mrs A.R. Jones, Llys Gwyn, Caernarfon, cyn-athrawes yn ysgol Tan-y-Coed, yn diolch i'r plant a'u rhieni, a staff yr ysgol am yr anrheg a dderbyniodd pan yn ymadael o'r ysgol y tymor diwethaf.

Hefyd, fe garai Mrs Nesta Jones, 2 Llys-y-gwynt, ddiolch i'w chymdogion, ffrindiau a'r teulu am bob caredigrwydd a dderbyniodd pan gafodd anhwylder yn ddiweddar. Diolch o galon.

Drwg gennym am alw Miss Nancy Williams, 15 Bryntirion yn Jones yn y rhifyn diwethaf.

EGLWYS SANTES HELEN - Diolchgarwch. Bydd ein gwasanaeth Diolch ddydd Sul Hydref 14. Am 10.45 cymun teuluol, ac am 3.15pm Gosber y Cynhaeaf. Byddwn yn addurno yr Eglwys fore Sadwrn 13 o Hydref am 9 o'r gloch y bore. Byddwn yn falch o ffrwythau a blodau a hefyd am help i wneud y gwaith.

DYMUNWN wellhad buan i Mrs J.M. Jones, 4 Llys y Gwynt a Mr Freeman, 11 Llys y Gwynt, y ddau wedi bod yn wael yn ddiweddar. A hefyd Mrs Hayden Lewis, Pen Pwll Coch.

ASTUDIAETH FEIBLAIDD - Cafwyd cyfarfod buddiol iawn yn y Ficerdy, nos Lun, 17 Medi gyda'r Ficer, y Parch A. Edwards, yn cadeirio.

Cymaint oedd llwyddiant y cyfarfod hwn fel y trefnwyd cyfarfod arall Nos Wener Hydref 12 yng nghartref Miss Mair Foulkes, 3 Brynhyfryd. Croeso i bawb.


CLWB YR HEULWEN - Cafwyd cyfarfod pnawn dydd Mawrth Medi 18. Croesawyd aelod newydd, Mrs Gwyneth Jones, 17 Bryntirion. Da oedd clywed fod Mrs J.M. Jones, Mr Freeman, Mrs Rose Jones a Mrs N. Jones yn gwella.

Rhoddwyd y te gan Mrs K. Williams a Mrs E. Porter, y ddwy o Llys-y-Gwynt. Enillydd y raffl oedd Mrs R. Thomas, Bod Awen. Bydd y cyfarfod nesaf Hydref 16 - Moes a Phryn.

YSGOL TAN Y COED

DISGYBLION NEWYDD - Dechreuodd tri o blant yr ardal eu gyrfa addysgol gyda ni ar Fedi 4, sef Aled Jones a Dafydd Jones, y ddau o Fryn Tirion, a Benjamin Rowlands o Fryn Hywel.

DISGYBL CYSON - Sion Roberts, o Fryn Eglwys oedd yr unig un o blant yr ysgol i gadw heb golli o gwbl yn ystod y flwyddyn diwethaf. Dyma lun ohono efo'i dystysgrif.



Sion Roberts yn arddangos ei dystysgrif am bresenoldeb llawn.

Ffiniau'r Gorffennol

Y LLEUAD NOSWAITH BRWYDR

W.A. Roberts (Gwilym Aled) ydyw awdur y penillion canlynol. Nid oes gennyf unrhyw fanylion amdano ond yn unig ei fod yn byw yn Stesion Llanberis gynt. Tybed a oes un o ddarlennwyr Eco'r Wyddfa yn gwybod ei hanes? Ni allaf gofio i'w enw ddwad i'r Eco o'r blaen.

Digwydd dod ar draws y penillion o'i enw ar ddarn o bapur wnes i - felly nid oes gennyf wybodaeth pa bryd y cyfansoddwyd y penillion. Buasai'n fantais cael gwybod pa frwydr oedd hi. Mae'r penillion siŵr o fod wedi eu cyfansoddi ddechrau'r ganrif yn fy marn i.

Pam, leuad dlos, yr wyt mor wen
Y noswaith hon tra'n rhodio'r nen?
A d'arian liw am heno ymad
Rhag dangos erchyllderau'r gad:
Paid dangos i'r serenog lu
Y noswaith hon y gwaedu fu
Yn aberth i ddigofaint plaid,
O! leuad dlos, paid dangos, paid!

Pam, leuad dlos, yr ydwyd ti
Yn edrych lawr ar waedlyd li
Yn dod o galon milwr gwan
Tra'n llusgo tua'i farw fan?
Ti'i gwelaist unwaith ar ei draed,
Ti'i gwelaist hefyd yn ei waed:
Ffo! leuad ffo! rhag dangos, paid!
O! leuad dlos, gwna beidio, paid!

Pam, leuad dlos, rwyd yn ymdroi,
Ai'n gweld yr wyt eneidiau'n ffoi
O faes y gwaed i faes yr heddi,
I orsedd wen, o waedlyd fedd:
A wyt ti'n clywed côr y nef
'N eu harwain fry hyd ato Ef?
Mor brudd yw'r maes, mor goch yw'r llaid
O! leuad dlos, paid dangos, paid!

O! leuad dlos, O ateb fi,
Sawl enaid a aeth heibio i ti,
I wyddod Barnwr mawr y byd?
Ai llawen oeddynt hwy i gyd?
Ai ynteu, ydoedd yn eu plith
Ryw enaid tlawd yn teimlo'n chwith
Pan nad oedd ganddo ffrynd wrth raid?
O! leuad dlos, paid ateb, paid!

W.A. Roberts (Gwilym Aled)
Llanberis Station, gynt.

Talwrn y Prydyddion

Y mae pawb wrth eu bodd yn gwrando ar Raglen Talwrn y Beirdd o dan ofal Gerallt Lloyd Owen, ond tybed a glywsoch chwi sôn am 'Dalwrn y Prydyddion' yr oes o'r blaen. Dyma enghraifft i chi.

Aeth Rhisiart lorwerth o Langynnwyd y Prydydd Ifanc, i fan lle cynhelid Cyfarfod Prydyddion. Cafodd lorwerth gwestiwn fel hyn gan y Meistr. 'Brydydd, a fedri di brydyddu?' 'Mi fedraf drio', atebodd Rhisiart. 'Dyma'r dasg i ti brydydd ifanc. Ateb bob cwestiwn a ofynnir i ti a

gwneud un englyn gyda'r atebion.'

'Mi wna fy ngorau. Dechreuwch ofyn!'

Beth yw hwn? - 'Padell'.

Beth yw yr un acw? - 'Cawell'.

Beth a weli yn gorwedd fan acw? - 'ci'.

Beth arall weli di? - 'Costog (cenau)'.

Beth yw yr un yma? - 'Cawnen'.

Beth a weli ar y graig acw? - 'Tarth'.

Beth yw'r pren glas acw? - 'Ywen'.

Beth yw'r pren nesaf atat? - 'Gewien'.

Beth sy'n llaw y wraig yna? - 'Torth gri'.

Gwna'r cwbl yn englyn!

'Gwnaf' meddai'r prydydd ifanc.

Padell a chawell, a chi, a chawnen

A cheneu costawci:

A phren yw, a phren Ewi,

A Tharth y graig, a Thorth gri.

Tybed a oes rhywun wedi clywed pwy oedd y prydydd?

Oes rhywun yn barod i ddyfeisio cystadleuaeth debyg?

Ynys Môn

Byw yn hon lle ces fy ngeni - fy lôr

Y f'hiraeth a'm gweddi:

Yn naear Môn, rho i mi,

Wely tawel, 'rôl tewi.

Thomas Nicholson

Coleg Aberhonddu.

Y Ceiliog

Mab iâr yn clebar i'n clyw - 'gw-gw-gw'.

Yn geg i gyd ydyw:

Cawr cribog, heglog, hygryw,

A'r un ei gân er yn gyw.

Ap Glaslyn.

BETWS GARMON

PRIODAS: Dymuniadau gorau i Jennifer Davies, (Lodge Plas Nant gynt), 1 Gwyrfa Teras ar ei phriodas yn ddiweddar.

DINORWIG

Gohebydd: O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)

DYMUNO'N DDA - Dymunwn yn dda i Mr Kefin Jones, 4 Bro Elidir, Dinorwig, ar gael ei dderbyn gan Glwb Tranmere Rovers fel disgybl peldroediwr ar brawf iddynt. Pob lwc i'r dyfodol Kefin.

DAMWEINIAU - Drwg gennym ddeall i Miss Shirley Williams, Bron Eilian, Dinorwig, gyfarfod â damwain gyda'i modur yn Ynys Môn, hefyd, Mr Alun Phillips, 6 Maes Eilian, Dinorwig, a gafodd ddamwain yn y cartref. Da deall eu bod yn gwella.

DOSBARTH W.E.A. - Cychwynnodd dosbarth nos dan nawdd y W.E.A., nos lau, Medi 20 yn y Ganolfan. Yr athro yw Mr Ifor Baines, B.A. Bydd cyfres o bum darlith. Maes astudiaeth yw 'Trafod Llenyddiaeth'. Yr ysgrifenyddes yw Miss E. Wyn Jones, Ty'n Fawng, Dinorwig. Croeso cynnes i bawb ymuno â'r dosbarth.

TE'R CHWIORYDD - Dechreuodd tymor te Chwiorydd Capel M.C. Dinorwig, bnawn lau, Medi 20. Rhoddwyd y te gan Mrs Laura Williams, Tan y Fron.

CYSGODFAN BWS - Da gennym fel ardalwyr weld fod y Gysgodfan Bws wrth groesffordd Ty'n Fawng o'r diwedd.

COFION - Anfonwn ein cofion at bawb sy'n cwyno yn eu cartrefi. Brysiwch wella.

DATHLU 50 MLYNEDD - Roedd y Sul, Medi 16 eleni yn un arbennig iawn yn hanes Eglwys Sardis. Hanner can mlynedd yn ôl fe ordeiniwyd

myfyriwr ifanc, W. Clifford Davies, o Goleg y Bedyddwyr, Bangor, yn weinidog ar Eglwys Sardis a Libanus, Clwt y Bont, a bu'n eu gwasanaethu'n ffyddlon a chydwybodol am bymtheng mlynedd. Ar achlysur dathlu ei hanner canrif yn y weinidogaeth, ei ddymuniad oedd cael dychwelyd i'r ddwy eglwys lle dechreuodd ar y weinidogaeth honno. Fe wireddwyd ei freuddwyd ar y dyddiad uchod.

Cynhaliwyd oedfa brynawn Sul, o dan lywyddiaeth Mr Robert Williams, yn Libanus, a phregethwyd, yn ôl ei ddymuniad gan y Parch Clifford Davies. Yn dilyn cafwyd cyfarchion o'r ddwy eglwys gan y Mri David J. Thomas, o Sardis, a John E. Morris, o Libanus, yn ogystal â'r cyn-brifathro G.R.M. Lloyd, a Mr T.M. Bassett o Fangor. Digwyddai'r ddau olaf fod yn gyn-lywyddion Undeb Bedyddwyr Cymru, a daeth yr un anrhydedd i ran y Parch Clifford Davies yn 1982. Cyflwynwyd rhodd iddo ar ran yr eglwys gan J.E. Morris.

Oedfa Gymundeb a gynhaliwyd yn yr hwyr yn Sardis, a phregethwyd eto gan Mr Davies. Darllenwyd cyfarchion oddi wrth un o blant Sardis a ddechreuodd ar ei yrfa yn y weinidogaeth yn ystod cyfnod y Parch Clifford Davies yma, sef y Parch Emllyn Jones, Llangloffan, gynt o Danyfron.

Hyfryd i aelodau'r ddwy eglwys oedd dod at ei gilydd i dreulio diwrnod mor llawen, ac mor llawn o atgofion yng nghwmni'r cyn-weinidog a'i ferch a'i phriod, Mr a Mrs Vaughan Morgan, Gorseinon, yn ogystal ag amryw o gyn-aelodau'r eglwys a chyfeillion eraill.

NANT PERIS

Gohebydd: Mrs J. E. Elis, 8 Glanrafon.

DYMUNA Jackie, Brenhines Carnifal Llanberis ddiolch i bwyllgor y Carnifal am yr anrhydedd a'r fraint o gael bod yn un o'r beirniaid yn y Carnifal - hefyd am yr anrheg a dderbyniodd.

LLONGYFARCHIADAU i Melanie am fod yn llwyddiannus i gael lle yn y coleg technegol, Bangor, i ddilyn cwrs 'Diploma in General Reception'. Pob lwc iti.

LLONGYFARCHIADAU - Llongyfarchiadau i Hefin, mab Joyce a Noel Williams, Stryd Eleanor, Caernarfon ac wŷr Mrs Griffith, Awelon, ar dderbyn gradd B.A. gydag anrhydedd ym Mhrifysgol Abertawe.

Y GYMDEITHAS - Agorwyd

Cymdeithas Lenyddol Undebol Llanberis ddydd lau y 13eg yn festri Capel Coch, pryd y cafwyd cystadleuaeth gwybodaeth gyffredinol rhwng timau o Lanrug, Llanberis a'r Nant. Mrs Dilys Baylis oedd yn gyfrifol am y cwestiynau a'r Parchedig Trefor Lewis am y marciau. Tim Llanrug oedd yn fuddugol o ddau farc. Y rhai oedd yn cynrychioli'r Nant oedd Mrs Marian Pritchard, Mrs J.M. Williams, Mr O.W. Humphreys, a Mr Gwilym S. Jones.

TRIP - Trefnwyd trip i Butlins i'r plant yn ystod y gwyliau gan bwyllgor y Carnifal a chafodd pawb ddiwrnod hapus iawn. Dymunir pob llwyddiant yn ystod y flwyddyn i blant a phobl ifanc yr ardal sydd wedi dychwelyd i wahanol ysgolion a cholegau ar ôl y gwyliau.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR

A GOSODWR

GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL

SYSTEMAU

GWRESOGI OLEW

GWRES BP



Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

LLOGI CEIR AR GYFER PRIODASAU AC ANGLADDAU. LLOGI BYSUS MINI.

J.M. WILLIAMS

TREFNYDD ANGLADDAU

CABS DEINIOLLEN

12 TAI FAENOL, DEINIOLLEN

Ffôn: LLANBERIS 871591

GWASANAETH

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd

Ffordd Glanmoelyn

Llanrug

Ffoniwch

CAERNARFON 3674

i drefnu amser



DEINIOLEN

Gohebydd: W.O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

DIOLCH – Dymuna Iwan Lloyd Roberts, Brig-y-Daran, Tai Fictoria, ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau, dymuniadau da ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei benblwydd yn 18 oed.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs Victor Williams, 3 Rhes Faenol, a'r teulu, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad ar golli mam a nain annwyl.

DYMUNA Sandy a Nesta Taylor, Fron Ganol, ddiolch o galon i'w perthnasau a'u ffrindiau am yr anrhegion a'r arian a dderbyniodd eu merch Donna ar ei ddewis yn forwyn gyda brenhines Carnifal Deiniolen. Diolch hefyd i Gloria ac Yvonne ac aelodau pwyllgor brenhines y carnifal am bob cymorth.

Dymuna Mrs L. Williams, 20 Hafod Olau ddiolch i berthnasau, cyfeillion, a chymdogion, am y cardiau, ac anrhegion, a dderbyniodd ar ei phen blwydd yn 80 mlwydd oed. Diolch yn fawr i bawb.

DYMUNA Lynda a Gwyn Owen, Mynydd Llandegai, ddiolch am yr holl anrhegion a'r cardiau a dderbyniasant ar enedigaeth eu merch fach, lola.

DYMUNA Cheryl ac Andrew Ward, 9 North Road, ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar enedigaeth eu mab Martin.

LLONGYFARCHIADAU i Mam a Dad (Esther Ann a Bobby), Arfon House, Deiniolen, ar ddathlu eu Priodas Arian ar Fedi 12, oddi wrth Alan a Nora.

DIOLCH – Dymuna Nia, 8 Tai Gwledfa, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y llu cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn un ar hugain oed, Awst 22.

DYMUNA Dylan Wyn Jones, 3 Rhydfadog, Deiniolen, ddiolch yn gynnes i'w deulu, ei gyfeillion a chymdogion am eu caredigrwydd tuag ato yn ystod ei waeledd yn ddiweddar; hefyd diolch arbennig i feddygon a staff Ward Mona, Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor, am eu gofal yn ystod ei arhosiad yno.

Diolch yn fawr iawn am y rhoddion hael a'r llu o gardiau a dderbyniodd. Diolch i bawb.

DISGWYLFA (M.C.)

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD – Nos Iau, Medi 6, cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar ôl y gwyliau o Gymdeithas y Chwiorydd, Disgwylfa (M.C.).

Cymerwyd y rhan ddefosiynol i agor y cyfarfod gan Mrs Miriam Lewis, ac yna croesawyd pawb yn ôl ar ôl y gwyliau.

Anfonir cofion cynnes ar ran y Chwiorydd at y rhai hynny sydd yn wael eu hiechyd yn eu cartrefi, a'r rhai hynny sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty neu newydd ddod gartref. Cofion cynnes atoch i gyd, a dymunir adferiad buan i chwi oll.

Estynnwyd llongyfarchiadau i Awen (Hughes gynt) ac Arwel ar achlysur eu priodas ar Awst 4, a hefyd ddymuniadau gorau i Dilwyn a Cathy a fydd yn priodi ar Fedi 22.

Anfonir llongyfarchiadau i blant yr eglwys sydd wedi bod yn llwyddiannus yn yr arholiadau Lefel

O a Lefel A eleni.

Cafwyd sgwrs o dan arweiniad Mrs Miriam Lewis ar yr Emyr 279 'Hyfryd Eiriau'r Iesu', a chafwyd trafodaeth ar gynnwys yr emyr. Diolchwyd i Mrs Dilys Williams a Mrs Jane Thorman Jones am y te y mis hwn.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Iau, Hydref 4, ac estynnir croeso cynnes i chwi ymuno â ni.

SEINDORF – Yn ystod mis Awst, cafwyd ymweliad heb ei ddisgwyl gan un o arweinyddion poblogaidd ym myd bandiau pres yn Lloegr a Chymru, sef Mr a Mrs Roy Newsom. Ar un adeg yr oedd Mr Newsom yn arweinydd Black Dyke Mills, un o fandiau gorau'r wlad. Yr oedd ef a'i briod ar eu gwyliau yn yr ardal.

Enillwyr Clwb 200:

Awst – 1. rhif 163, £25, Mrs E. Jones, Rhes Newydd; 2. rhif 97, £15, Mrs G. Davies, Tai Caradog; 3. rhif 113, £5, G. Oliver Jones, Bwthyn Gwyn. **Medi** – 1. rhif 59, £25, E. Williams, 1 Pentre Helen; 2. rhif 174, £15, E. Baum, Tŷ Capel y Ffôr; 3. rhif 99, £5, John Roberts, Hafod Oleu.

EISTEDDFOD – Cofiwch am adran Gelf a Chrefft yr Eisteddfod eto eleni. Rhaid i'r gwaith llaw ac arlunio gan y plant; gwau; gwnïo; crosio; tegan meddal; gwaith coed, metal a llechan; hefyd arlunio a threfniant o flodau i gyd i'w danfon i Neuadd yr Ysgol rhwng 6 a 7 o'r gloch nos Wener, Hydref 20, a'r coginio rhwng 10 ac 11 o'r gloch fore Sadwrn, Hydref 21, 1984. Bydd Arddangosfa Gelf a Chrefft brynhawn Sadwrn, Hydref 21, o 2-4 o'r gloch yn Neuadd Ysgol Gwaun Gynfi. Croeso cynnes i bawb. Cofiwch gefnogi eich Eisteddfod.

MERCHED Y WAWR – Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor nos Lun Medi 17 yn y Ganolfan o dan Lywyddiaeth Mrs Eirlys Williams. Cafwyd noson hynod o ddiddorol gan y gŵr gwadd, Mr Arthur Rowlands, Arennig, Caernarfon. Gydag ef roedd Dave y ci. Rhoddwyd sylw mawr i'r ci ac anodd oedd credu pa mor gall ydoedd, ac fel yr oedd ef a'i feistr yn deall ei gilydd. Talwyd y diolchiadau gan Mrs Dilys Hughes. Rhoddwyd y te gan Mrs Jane Jones a Mrs Mary Morris, ac enillwyd y raffl gan Mrs Dilys Hughes.

Dalier sylw y bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, Hydref 17 am 6.45. Y gŵr gwadd fydd Mr O.R. Williams, Bro Elidir, Dinorwig.

Bydd swper Nadolig yn cael ei gynnal yng Ngwesty Victoria, Llanberis, nos Wener Rhagfyr 7. Enwau cyn gynted ag y mae modd os gwelwch yn dda i Miss Marian Jones, 7 Bro Elidir, Dinorwig.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Fedi 3, dan arweiniad y llywydd a ddarlennodd y llythyr misol. Darlennwyd y cofnodion gan yr ysgrifennydd. Y wraig wadd oedd Mrs Treen, Caernarfon, y V.C.O. Cawsom hanes difyr iawn gyda Mrs Treen yn sôn am hen chwedlau ac ofergoelion.

Rhoddwyd y te gan Miss Kathleen J. Jones, Prenteg a Mrs J. Eirlys Williams, 3 Pentre Helen. Enillwyd y raffl hefyd gan Mrs Williams.

Yr ail wraig wadd oedd Mrs Enid Williams, Caernarfon, a fu'n cynrychioli Sefydliad Deiniolen yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol yn Llundain. Rhoddodd fanylion cryno iawn o'r cyfarfod. Diolchwyd i Mrs Treen a Mrs Williams gan Mrs Rita Parry Jones, y llywydd, a chroesawyd y ddwy gan Mrs Jones. Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 1 pryd y bydd Mrs Maud Williams, Caernarfon y V.C.O. yn rhoi dawnio gwerin i ni.



PRIODAS – Yn Eglwys y Santes Fair, Tallyllyn, Gorffennaf 28, priodwyd Elen, wyres i'r diweddar Isaac a Jennie Owen, Brithdir, Pentre Helen gynt, a John Owen Jones, unig fab Mr Owen Jones a'r diweddar Mrs M. Jones, Abergynolwyn. Y morynion oedd, Miss Yvonne Owen, cyfnither y briodferch; Miss Lena Rowlands, ffrind; Miss Rhiannon Humphreys, ffrind, a Mrs Julie Roberts, ffrind. Y gwas oedd Mr Eric B. Jones, Tywyn – cefnder y priodfab. Yr ystlyswyr oedd: Dafydd Birch, cefnder y briodferch, a Paul Johnson, nai y priodfab. Gweinyddwyd gan y Ficar Bryant. Y delynores oedd Telynores Arran, a'r organydd, Mr Tudur Jones,

Tywyn. Bu'r wledd briodas yng nghartref y briodferch – fferm Cedris, Tallyllyn, mewn pabell lle'r oedd dros 160 o wahoddedigion.

Cafwyd cyngerdd yn y nos, ac yn cymryd rhan oedd Côr Meibion Dyfi, Gwilym Bryniog – unawdydd, Rhian Tomos – telyn, Jeff Tomos – ffidil, Mr a Mrs Kennard – ffidil a'r piano. Treuliodd y pâr ifanc eu mis mêl yn Tenerife – a byddant yn ymgartrefu yn Llwyn Teg, Abergynolwyn. Gwnaethpwyd y gacen briodas gan Mr Gwilym Rowlands, Deiniolen, ac ef oedd yn gyfrifol am drefnu'r wledd fythgofiadwy. Treuliodd y briodferch ei phlentyndod yn Neiniolen cyn symud i fyw i Gedris.



Arwel Jones, Melangell, Lôn Ysgubor Wen, Caernarfon ac Awen Hughes, 26 Pentre Helen, Deiniolen ar ôl eu priodas yng nghapel Disgwylfa yn ddiweddar.

EISTEDDFOD GADEIRIOL GWAUN GYNFI (DEINIOLEN A'R CYLCH)

i'w chynnal yng Nghapel
Ebeneser, Deiniolen ddydd
Sadwrn, Hydref 27, 1984.

10.00 y bore ; 1.00 y prynhawn; a
6.00 yr hwyr

CROESO CYNNES I BAWB

AR WERTH

Gwialen 'Fly Milbro' werdd, dau ddarn. Wedi ei defnyddio am un tymor yn unig. Hefyd ril 'Rimfly' a lein. Caernarfon 5411. £15.00.

GWISG YSGOL BRYNREFAIL: sgert werdd (30") a swimper (36") newydd sbon am £7 am y ddwy. (Ffôn C'fon 5270)

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)

CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn, Waunfawr 626

CYDYMDEIMLWN â Mrs Jones, Tegfryn, ar golli ei brawd.

ADREF O'R YSBYTY ddaeth Mr Glyn Owen, Glan Gors a Mr Robert ap Wyn Williams, Tegannedd, a Gwyn Thomas, Treforfan a dderbyniodd driniaeth lawfeddygol. Gobeithiwn eu bod yn parhau i wella. Anfonwn ein cofion atynt.

LLONGYFARCHIADAU i Arwel Parry, mab ieuengaf Mary ac Elwyn Parry (Waunfawr gynt) ac ŵyr i Mrs J. Parry, Clydfan a Mrs G. Griffiths, Tanrallt. Mae Arwel wedi ennill Cap Ieuencid Cymru mewn rygbi yn y gêm rhwng Cymru a Lloegr. Yn ogystal mae Arwel yn chwarae i dîm Ieuencid Caerdydd ac enillodd Gwpan Ezzo Cymru ac fe wnaethpwyd Arwel yn Chwaraewr y Flwyddyn gan y clwb 1983-84. Fe sgoriodd Arwel 344 o bwyntiau yn ystod y tymor i Gaerdydd.

CRONFA'R GANOLFAN - Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Awst: 1. T.A. Thomas, Gilfach; 2. R. King, Gerynant; 3. Susan Davies, Hafod Wen.

CLWB 100 PLAID CYMRU - Dyma enillwyr mis Gorffennaf: 1. Carys Jones, Morawel; 2. Alma Jones, Tanyfron; 3. Jean Jones, Llwyn Onn. Dyma enillwyr mis Awst: 1. John Ellis, Glynawel; 2. Rhodri Prys Jones, 15 Stad Tŷ Hen; 3. Marilyn Roberts, Bodafon.

LLONGYFARCHIADAU i holl blant y pentref a lwyddodd yn eu harholiadau Lefel A, O a TAU. Dymuniadau gorau i'r rhai ohonynt sydd yn dechrau ar eu gyrfa yn y Colegau.

PLAID CYMRU - Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol Cangen Waunfawr yn Neuadd yr Eglwys nos lau, Medi 18, pryd yr etholwyd swyddogion ar gyfer y flwyddyn nesaf. Trefnwyd y byddai'r gangen yn cefnogi ymgyrch y glowyr drwy gasglu bwyd i'w teuluoedd dros gyfnod y streic. Derbynnir unrhyw roddion gan y Cynghorydd Dic Jones yn Llwyn Onn, a Dafydd Iwan ym Mhenyberth, a rhoddir y bwyd i'r fan arbennig a ddaw i Fangor bob wythnos. Cynhelir Ffair Nadolig y Blaid yn y Ganolfan nos Wener, Rhagfyr 7. Cynhelir cyfarfod ar y cyd yn fuan rhwng canghennau Waunfawr, Bontnewydd a Rhostryfan i ddewis ymgeisydd yn enw'r Blaid ar gyfer etholiadau'r Cyngor Sir ym mis Mai 1985.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Cynhaliwyd cyfarfod mis Medi o'r Sefydliad yn Festri Croesywaun nos lau Medi 6. Croesawodd y llywydd,

Mrs Catherine Jones, yr aelodau yn ôl ar ôl gwyliau'r haf, a chroesawodd Mrs Olwen Lewis o Helsby, Sir Gaer, fel ymwelydd i'r cyfarfod.

Darllenwyd y llythyr misol a chofnodion y cyfarfod diwethaf a'u trafod. Cynhelir Cyfarfod yr Hydref, Sefydliadau Caernarfon, Gwynedd, nos lau Hydref 18, a chynhelir yr Ŵyl Garolau yng Nghapel Soar, Penygroes, nos Wener, Rhagfyr 7. Cafwyd arddangosfa o drefnu blodau gan y wraig wadd, Mrs Maud Williams o Gaernarfon. Diolchwyd iddi gan Mrs Parry Williams. Enillodd Mrs Peggy Jones y raffl a roddwyd gan Mrs Mary Davies. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos lau Hydref 4 yn Festri Croesywaun.

EISTEDDFOD ARDAL WAUNFAWR - Cynhelir yr Eisteddfod eleni ddydd Sadwrn, Tachwedd 17 yn y Ganolfan - gobeithio fod pawb wedi dechrau ymarfer - a phawb hefyd yn brysur gyda'u gwaith llaw a llenyddiaeth.

Sylwer bod holl gystadlaethau canu piano yn hunan-ddewisiad, nid fel a nodir yn y rhestr testunau.

DOSBARTH W.E.A. - Bydd dosbarth o dan nawdd Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yn dechrau nos Lun, Hydref 29 yn yr ysgol leol. Y testun yw 'Agweddau ar Hanes Cymru o 1485 ymlaen', a'r athro yw Mr Gareth Wyn Jones B.A., Ysgol Syr Huw Owen, Caernarfon. Cynhelir y cyfarfodydd bod yn ail nos Lun (onid oes cyfarfod o'r Gymdeithas Lenyddol) a gobeithir cael 8 cyfarfod yn ystod y tymor. Bydd y gost tua £6.50 gyda gostyngiad i rai wedi ymddeol a di-waith. A fydd y rhai sy'n bwriadu ymuno, cystal â hysbysu'r trefnydd lleol - Mr Rol Williams, Ardwyn - erbyn canol Hydref.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL - Mewn cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod yr haf penderfynwyd ailsefydlu'r Gymdeithas Lenyddol a'i chynnal yn y Ganolfan newydd. Cynhelir y cyfarfodydd unwaith y mis ac nid pob pythefnos fel y bu ers talwm. Cychwynnir y Gymdeithas nos Lun Tachwedd 19 gyda darlith, a chynhelir Noson Goffi yn y Ganolfan nos Wener, Tachwedd 30 i hyrwyddo cronfa'r Gymdeithas. Nos Lun, Rhagfyr 3, bydd Emyr Jones, Caernarfon (Ty'n Ceunant gynt) yn rhoi sgwrs ar 'Hen Fandiau pres yr ardal', a gobeithir cael unawdwyr o fand cyfagos i roi datganiad yn ystod y sgwrs. Nos Lun, Ionawr 14 bydd R. Gwynn Davies, Bryn Eithin, yn rhoi sgwrs ar ei yrfa fel cyfreithiwr. Chwefror 11, ceir dadl, a nos Lun, Mawrth 11, ceir swper i gloi gyda Dei Tomos (BBC), Nant Peris, a chynt o'r pentref, yn ŵr gwadd. Y tâl aelodaeth am dymor difyr fydd £1, a disgwylir

cefnogaeth yr ardalwyr fel y gall y Gymdeithas ailennill ei lle unwaith eto yn y fro.

YR YSGOL FEITHRIN: O hyn ymlaen fe fydd yr Ysgol Feithrin yn cynnal Ffair yn ystod yr haf, yn lle Carnifal. Os oes unrhyw fudiad arall â diddordeb mewn cynnal Carnifal cysyllter â Mrs Heulwen Jones, Cynnant Lodge neu Carys Jones, Tŷ Capel Croes-y-waun. Diolch i pawb am eu cefnogaeth i Garnifal yr Ysgol Feithrin yn y gorffennol.

Y mae'r Ysgol Feithrin yn bwriadu rhoi cinio i Henoed y pentref ar ddydd Gwener Tachwedd 2 am 12.30 yn y Ganolfan. Pawb sydd â diddordeb i roi eu henwau i Bethan Williams, Bryn Meurig, Llinos Cadwaladr, 3 Glyn afon neu Carys Jones, Tŷ Capel Croes-y-waun cyn Hydref 17 os gwelwch yn dda.

DIOLCH: Dymuna Gwyn Thomas, Treforfan ddiolch i'w gyfeillion a chymdogion am y caredfigrwydd tuag ato tra yn yr ysbty ac ar ol dod gartref.

DIOLCH AM GYMORTH YR IFANC



Gwirfoddolwyr ifanc Waunfawr a fu'n cynorthwyo gyda'r gwaith o baratoi'r Ganolfan ar gyfer defnydd y pentrefwyr. Pob canmoliaeth iddynt am roi o'u hamser a'u hegni ac i Mr Gwilym Williams am oruchwylio.

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

CROESO - Croeso i dri phennaeth adran newydd i'r ysgol, sef - Mr Huw Rhydwen Williams o Dalysarn, sy'n bennaeth ar yr Adran Gelf; Mrs Carys Lloyd Evans, Llanrug, pennaeth Gwyddor Tŷ; Mrs Megan Roberts, hefyd o Lanrug, sy'n bennaeth ar yr Adran Gerdd. Hefyd croeso i ddau athro sydd yma dros dro, sef, Mrs Menna Jones o Fangor a Mrs Miriam Hughes o Gwm-y-Glo.

ADRAN GELF - Ddydd lau, Medi 20 aeth Mr Huw Rhydwen Williams a Mr I an Ginsberg â disgyblion o'r pumed a'r chweched dosbarth i Oriel Mostyn yn Llandudno.

CADAI'R YSGOLION BRYNREFAIL, CAERNARFON A PHENYNGROES - Cynhaliwyd cystadleuaeth cadair y

tair ysgol ddydd Gwener yn ysgol Syr Huw Owen, Caernarfon. Enillwyd y gadair gan Gwenno Bebb, disgybl o'r chweched dosbarth, Ysgol Syr Huw Owen.

PÊL-DROED A PHÊL RWYD - Ysgol Dyffryn Nantlle (oddi cartref): Bechgyn hŷn, ennill 8-1; Dan 15, ennill 5-3; Dan 13, colli 3-2.

Pêl Rwyd - Tîm Blwyddyn 3, ennill 17-3; Tîm Blwyddyn 4, colli 22-5.

Ysgol Gyfun Llangefti (oddi cartref) - Bechgyn hŷn, cyfartal 3-3; Dan 15, ennill 3-2; Dan 13, colli 4-2.

Dewiswyd Stuart Williams (Llanrug), Neil Roberts (Brynrefail) a Terry Saynor (Llanberis) i garfan pêl droed ysgolion Arfon dan 15 oed. Bydd y tri yn awr yn chwarae yn y gêm dreial derfynol i ddewis tîm Gwynedd.

Y GAIR 'GOLCHI'

Sôn am y gair 'golchi' yma, hen air iawn y mae pawb yn gwybod rhywbeth amdano - hen ac ifanc - pawb wedi dod ar ei draws ugeiniau o weithiau yn ystod ei fywyd. Sawl gwaith yr ydym wedi clywed rhyw fam neu dad yn dweud - "Mi golcha i di machgen i pan ga'i afael arnat ti"? Ia, mae'r gair yn bygwth curfa reit dda, ond o drugaredd mae yn anodd cael gafael ar y crwt ar adegau o'r fath.

Yn y Cymro, Tachwedd 1af, 1941, roedd dewis helaeth o eiriau a ddymuna fygwth curfa i un arall - ac mae'r amrywiaeth geiriau yn ddiddorol iawn. Dyma rai ohonynt. 'Cweir' yw'r gair mwyaf poblogaidd yn Arfon am yr oruchwyliaeth. Ond, wrth gwrs, gellir rhoi 'colbings' neu 'sgwrfa' neu 'gwrban'. Eir mor bell yng Nghaernarfon ag addo 'Blaciai dy ffes di co lawr yn Cei Llechi, nes bydd dy fam di ddim yn nabod ti, ia!'

Mewn rhannau eraill, gwell gan y bobl 'leinio' ei gilydd mewn 'cwffas'. 'Cwffio' sydd air am ymladd, ac yn y cwffio bydd y 'duo' a'r 'mopio' a'r 'dyrnu' a'r 'hanner lladd' y naill a'r llall.

Efo llaw agored (ym mhob ystyr i hyn) ceir 'peltio', 'clustochi' a 'lempan', 'waldan' neu 'swadan' neu

'dres' neu 'stid' neu 'glustan'.

Wedi'r safle fynd yn ddifrifol iawn, gellir mynd mor bell â 'rhoi y farwol iddo', neu wneud yr un fath â phobl Môn ac Arfon a 'rhoi Bangor iddo fo'.

Nid hawdd yw egluro'r 'Bangor' yna, efallai fod a wnelo'r 'bang' yn Bangor rywbeth â'r peth. A phob tro y cicid y bêl-droed o'r cae mewn gêm, gweiddai dilynwy'r yr ochr arall 'Bangor Steil', gan y dywedid mai dyna wnâi Bangor 'stalwm pan fyddai gôl ar y blaen a dim llawer o amser i fynd.

M.B.H.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn

AR GAU
SUL,
MERCHER.

GWLÂU SENGL O £39 I FYN
GWLÂU DWBL O £75 I FYN

DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'
O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
- ALLWCH CHI Fforddio prynu o batrymau?

MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646



NOS LUN

Fo a Fe 1 Hydref -
Minafon 17 Medi -
Torri Gwynt 12 Tachwedd -

NOS FAWRTH

Byd Cerdd 11 Medi -
Dramâu Hir 30 Hydref -
Portread of Rachel Thomas 23 Hydref

NOS FERCHER

Reslo 17 Hydref -
Saith Canhwylbren Aur 12 Medi -
Y Byd ar Bedwar

Y bûm yn gwylio'n llawen
Wyddwn i ddim fod posib cael gwell
Nes daeth...

NOS IAU

Yr Alcoholic Llon 1 Tachwedd
O Benllyn i Bendraw'r Byd 4 Hydref -
Teulu-ffôn 8 Tachwedd -

NOS WENER

Pobol y Cwm 5 Hydref -
Trebor Edwards 21 Medi -
Dweud eich Ddweud 21 Medi -

ac wedyn...

NOS SADWRN


Pobol Port 22 Medi -
SuperTed 29 Medi -
Sion a Sian 17 Tachwedd -
Y Maes Chwarae 22 Medi -

NOS SUL

Margaret Williams 14 Hydref -
Wil Cwac Cwac 28 Hydref -
Rhaglen Hywel Gwynfryn 30 Medi -
Dramâu byr 7 Hydref -
Dechrau Canu, Dechrau Canmol 30 Medi -
Hywel Morgan 18 Tachwedd

S4C

LLON-GYNYRCHIADAU'R HYDREF



DYDDIADUR

DYDDIADUR HYDREF

1. Llun: LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
 Dosbarth WEA 'Arlunio' yn Ysgol Dolbadarn am 7.00
 Dosbarth WEA 'Critical Thinking' yn Ysgol Dolbadarn am 7.00
 LLANRUG: Dosbarth WEA 'Chwilota i Hanes Dyffryn Peris' yn yr Ysgol Gynradd am 7.00
 2: Mawrth: BETHEL: Clwb Bro Bethel
 DEINIOLLEN: Dosbarth WEA 'Nes na'r Hanesydd ...' yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7.00
 LLANBERIS: Dosbarth WEA 'Dysgu Cymraeg' yn yr Ysgol am 7.00
 3. Mercher: LLANBERIS: Dosbarth WEA 'Gweithdy Drama' yn yr ysgol am 7.30
 4. Iau: DEINIOLLEN: Cymdeithas y Chwiorydd Capel Disgwyf (MC)
 WAUNFAWR: Sefydliad y Merched yn Festri Croesywaun
 Clwb Gwryfai - sgwrs gan Mr Frank Rhys Jones, Tregarth yn y Ganolfan gyda Mr J. Grant Jones, Caernarfon yn Festri Capel Coch am 7.30
 DINORWIG: Dosbarth WEA 'Traffod Llenyddiaeth' yn y Ganolfan am 7.00
 5. Gwener: DEINIOLLEN: Bingo'r Seindorf yng Nghwt y Band am 7.30
 LLANBERIS: Te yr Henoed
 WAUNFAWR: Dosbarth WEA 'Arlunio' yn yr Ysgol Gynradd am 7.00
 YR ARDAL: Gŵyl Werin Caernarfon - Hogiau Llandegai gyda 'Traed Wadin' yng Nghanolffan Tan y Bont am 8.30. Noson Roc gyda 'Ficer' yn Ysgol Syr Hugh Owen o 7.30 i 10.30
 6. Sadwrn: YR ARDAL: Gŵyl Werin Caernarfon - Gweithdai Dawnsio Gwerin yn Ysgol Syr Hugh Owen o 9.30 i 12.00. Dawnsio ar strydoedd Caernarfon a Bangor am 1.30. Twmpath Dawns yn y 'Royal' am 7.30
 8. Llun: LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30. Dosbarthiadau WEA yn yr Ysgol.
 LLANRUG: Dosbarth WEA yn yr Ysgol Gynradd
 9. Mawrth: DEINIOLLEN: Clwb Elidir yn y Clinic. Dosbarth WEA yn yr Ysgol.
 LLANBERIS: Dosbarth WEA yn yr Ysgol
 LLANRUG: Noson Goffi Merched y Wawr.

10. Mercher: LLANBERIS: Dosbarth WEA yn yr Ysgol
 BETHEL: Merched y Wawr - Cwis gyda Changen Rhiwlas
 11. Iau: DINORWIG: Dosbarth WEA yn y Ganolfan
 LLANRUG: Cyfarfod Cyhoeddus y Canrifal yn y Neuadd Goffa am 7.30
 12. Gwener: DEINIOLLEN: Bingo y Seindorf yng Nghwt y Band am 7.30
 WAUNFAWR: Dosbarth WEA yn yr Ysgol
 13. Sadwrn: LLANBERIS: Cinio Dathlu Pen-blwydd 20ain oed y Cwmni Drama yn y 'Royal Goat' Beddgelert.
 LLANRUG: Eisteddfod Gadeiriol - dau gyfarfod
 14. Sul: PENISARWAUN: Gwasanaeth Diolchgarwch Eglwys Santes Helen.
 15: LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30. Dosbarthiadau WEA LLANRUG: Dosbarth WEA
 16. Mawrth: PENISARWAUN: Clwb yr Heulwen yn cynnal Noson Moes a Phryn DEINIOLLEN: Dosbarth WEA
 LLANBERIS: Dosbarth WEA
 17. Mercher: BETHEL: Merched y Wawr LLANRUG: Clwb Blodau'r Grug
 LLANRUG: Dosbarth WEA
 DEINIOLLEN: Merched y Wawr - sgwrs gan O.R. Williams, Dinorwig
 18. Iau: DINORWIG: Dosbarth WEA LLANRUG: Cyfarfod Chwiorydd Pontrhythallt
 YR ARDAL: Cyfarfod yr Hydref Sefydliad y Merched, Cylch Caernarfon
 19. Gwener: DEINIOLLEN: Bingo'r Seindorf yng Nghwt y Band am 7.30
 LLANBERIS: Clwb yr Henoed
 YR ARDAL: Yr ysgolion yn cau am hanner tymor
 22. Llun: LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30
 23. Mawrth: LLANRUG: Y Gymdeithas Undebol
 25. Iau: WAUNFAWR: Merched y Wawr LLANBERIS: Sefydliad y Merched
 26. Gwener: DEINIOLLEN: Bingo'r Seindorf yng Nghwt y Band am 7.30
 29. Llun: YR ARDAL: Yr ysgolion yn ail-ddechrau
 LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30. Dosbarthiadau WEA.
 LLANRUG: Dosbarth WEA
 WAUNFAWR: Dosbarth WEA 'Agweddau ar Hanes Cymru' yn yr Ysgol Gynradd
 30. Mawrth: DEINIOLLEN: Dosbarth WEA LLANBERIS: Dosbarth WEA

ATEBION CROESAIR MEDI

Oherwydd prinder gofod nid yw'n bosibl cyhoeddi croesair y mis hwn. Dyma atebion croesair Medi.

AR DRAWS: 1. Bywydeg. 5. Cablu. 8. Ymladd. 9. Eilunod. 10. Ymbaratoi. 12. Ian. 13. Pantle. 14. Hafaid. 17. Nai. 18. Mursendod. 20. Afiechyd. 21. Dinam. 23. Telyn. 24. Gwridog.

I LAWR: 1. Bwyty. 2. Wel. 3. Diddorol. 4. Gwesty. 5. Culni. 6. Benidgaid. 7. Undonedd. 11. Bendithiol. 13. Pendant. 15. Agendor. 16. Aredig. 18. Mochyn. 19. Dameg. 22. Nod.

Enillydd: Mrs N. Williams, 2 Bro Elidir, Dinorwig.

31. Mercher: LLANBERIS: Dosbarth WEA

Busnes newydd ym Mro'r Eco ...

EMYR JONES
 PLYMAR
 PEIRIANNYDD
 GWRESOGI
 GWAITH
 INSIWLEIDDIO
 44 Glanffynnon
LLANRUG
 Caernarfon.
3513

GWEITHIWR YSGOL SUL



Mae Delyth Oswy newydd ddechrau gweithio fel Swyddog Datblygu i'r Cyngor Ysgolion Sul. Mae hi'n dod o Ddyffryn Clwyd, a bu'n dysgu yn Ysgol Uwchradd Dinbych gynt.

Bydd yn gweithio yn eglwys i chapel bob enwad yn Arfon - ardal Bangor, Caernarfon, Dyffryn Ogwen a Dyffryn Nantlle - yn helpu athrawon Ysgol Sul a gweithwyr plant ac ieuencid. Bydd yn trefnu cyrsiau hyfforddi; arddangos llyfrau ac adnoddau; helpu hefo gwaith ieuencid ac yn gwneud defnyddiau ar gyfer dosbarthiadau.

Beth am i athrawon eich Ysgol Sul chi ddod at ei gilydd ar ddechrau'r tymor newydd i weld sut y gall Delyth eich helpu? Cysylltwch â hi yn Ystafell 155, Cyngor Ysgolion Sul, Y Santes Fair, Lôn Popty, Bangor LL57 1DZ, neu ffoniwch am sgwrs - Bangor 351151, estyniad 6108.

Awdurdod Datblygu Cymru

**A ydych chi mewn busnes?
 A ydych chi'n meddwl
 cychwyn ar eich pen eich hun?**

Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.

Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychan,
 Awdurdod Datblygu Cymru,
 Llys Garth, Ffordd Garth,
 Bangor. Ffôn: Bangor 352606

**Welsh
 Development Agency**



**I DRWSIO'R
 TELEDU
 NEU'R
 RADIO
 FFONIWCH...**

**Osmond
 W. Shaw**

DEINIOLLEN

Ffôn:

LLANBERIS 870545

Gwasanaeth 'run diwrnod
 os ffoniwch cyn 10 o'r
 gloch y bore

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

**YSGOL YRRU
 OFALUS**

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD


43 glanffynnon

LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyr gan yr Adran
 Drafnidiaeth

**AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
 I BLE BYNNAG Y BO ...**



BWSIAU ARFON

LLANRUG

(ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175
 neu Bangor 51981

CHWARAEON

RAS ELIDIR FAWR

Rwy'n cofio gweld cartŵn unwaith o ymwelwyr Americanaidd yn edrych ar bonciau Chwarel Dinorwig ac yn synnu atynt: "Gee, those Welsh quarrymen must have extremely long legs to climb those steps!" Tybed beth fyddai'r hen chwarelwyr wedi ei ddweud pe baent wedi gweld deugain o bobl yn rhedeg i gopa'r Elidir am hanner dydd, ddydd Sadwrn diwethaf. Dyma'r tro cyntaf i ras gael ei chynnal i gopa'r Elidir Fawr, a chafodd ei threfnu ar ran Cymdeithas Rhedwyr Mynydd Cymru, Cymdeithas a sefydlwyd am y tro cyntaf eleni, gyda Ken Jones o Lanberis yn Gadeirydd iddi.

Am y tro cyntaf eleni bydd pencampwriaeth rhedeg mynydd yng Nghymru. Mae'n cael ei phenderfynu ar ganlyniadau naw ras fynydd, yn amrywio mewn pellter ac uchder. Y rاس hir oedd y Ras 1,000 metr yn Eryri, Ras y Mynydd Du, De Cymru ac y mae Ras Bannau Brycheiniog i'w rhedeg yn ystod y mis nesaf. Y rاس canolig oedd Moel Hebog, Moel Eilio a'r Wyddfa. Y tair ras fer oedd Cnicht, Machen ac Elidir Fawr.

Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos mai i Dde Cymru yr aiff y bencampwriaeth, gydag Andy Derby o Glwb Rhedeg Mynyddwyr De Cymru ar y blaen â 44 o bwyntiau. Yn ei ddilyn mae Hefin Griffith o Glwb Rhedwyr Eryri â 41 o bwyntiau, ac yna Les Williams (Mynyddwr De Cymru), Del Davies (Eryri), a Malcolm Jones (Eryri), i gyd ar 33 pwynt. Bydd y rhain, ynghyd â Bernie Woodward (Eryri) 32 pwynt; a Huw Parry (Eryri) 27 pwynt; yn teithio i Bergamo yn yr Eidal ddiwedd mis Medi i gynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth rhedeg mynydd ryng-wladol. Dyma'r tro cyntaf i dîm Cymru

gael ei ethol yn gyfan gwbl ar ganlyniadau rاس mynydd yng Nghymru, a dymunwn bob llwyddiant iddynt yn yr Eidal lle byddant yn cystadlu yn erbyn 12 o wledydd eraill.

Roedd yn amlwg felly y byddai rhai o dîm Cymru yn rhedeg yn Ras Elidir Fawr ddydd Sadwrn, ond nid Cymro aeth â'r wobwr gyntaf. Dave Woodhead ddaeth i mewn i bentref Nant Peris gyntaf mewn amser o 48 munud a 15 eiliad, gyda Paul Stott a Hefin Griffith yn ei ddilyn mewn llai na hanner munud. Don Williams o Fynydd Llandegai oedd y rhedwr cyntaf dros 40 oed, mewn amser o 50 munud 17 eiliad; ac yr oedd yr 19 rhedwr cyntaf i gyd yn ôl mewn llai nag awr. Y ferch gyntaf oedd Bridget Hogge o Riwlas, 7 eiliad dros yr awr. Roedd chwarter y rhedwyr o fro 'Eco'r Wyddfa', ac yr oedd un ymwelydd tramor, sef Jack Mroczowski a oedd yn yr ardal ar ei wyliau o Unol Daleithiau'r America. Gan iddo gymryd 70 munud i orffen y ras, tybed nad oedd rhywfaint o wir yn yr hen gartŵn wedi'r cyfan, ac mai hogia 'coesa hirion' Eryri wyddai sut i ddringo a disgyn gyflymaf?

TIM YSGOL BRYNREFAIL 1936-37

Enwau tîm pêl-droed Ysgol Brynrefail 1936-37. O'r chwith, rhes uchaf: G.R. Jones (Deiniolen), Llestyn Jones (Deiniolen), J. Peris Jones (Deiniolen), Trefor Ellis (Deiniolen), Hugh Ronald (Llanberis). Rhes ganol: Powel Jones (athraw), Emlyn Davies (Llanberis) (?), Iorwerth Boyer (Deiniolen), Goronwy Owen (Llanberis), Meic Thomas (Llanberis), Jones (Cem) (athraw). Eistedd: Pyrs Jones (Llanrug), Wil Cae Glas (Llanrug). Enwau trwy garedigrwydd Emlyn Davies, Llanberis — Cwm y glo gynt, sydd yn y llun. Ond pwy yw'r un a'r cwestiwn ar ei ben?

DRAENOG



CND YN CURO LLANBERIS

Methwyd â chwarae'r gêm rhwng Llanberis a Gwersyll Awyrlu'r Fali yn Her Gwpan Gogledd Cymru oherwydd protest CND tu allan i'r gwersyll — neu o leiaf, dyna oedd esgus un o brif swyddogion yr Awyrlu. Efallai mai gormod o ofn gynna mawr Llanberis oedd arnynt!

BBC RADIO CYMRU

yn recordio

"CWLWM PUMP"

yn

Ysgol Gynradd Llanrug nos lau, Hydref 4ydd am 7.00

Mynediad drwy docyn 8 i'w cael gan y Prifathro "Y cyntaf i'r felin...."

TYMOR ARALL O GICIO GWYNT

Mae'r gaeaf wedi cyrraedd, a gemau pêl-droed yn mynd â bryd llawer ar bnawniau Sadwrn bellach. Mae timau'r ardal wedi chwarae tua hanner dwsin o gemau erbyn hyn, a phob un ohonynt yn ffyddiog am well tymor eleni nag a gawsant y llynedd. Mae'n ymddangos ar hyn o bryd mai digon tebyg fydd y drefn y tro hwn eto, gyda Llanberis a Llanrug yn ymladd yn hanner uchaf y Gynghrair, a Deiniolen a Bethel yn brwydro yr un mor galed i gadw oddi ar y gwaelod.

Llanberis — Pencampwriaeth arall?

A thîm buddugoliaethus Pwllheli y tymor diwethaf wedi chwalu, mae'r drws yn llydan agored i Lanberis gipio'r Bencampwriaeth eleni. Cafwyd cychwyn penigamp i'r tymor, gan ennill eu pum gêm gyntaf, ond y Sadwrn diwethaf ar gae Penrhyndeudraeth, cawsant y profiad o golli, a hynny yn erbyn un o'r timau all eu gwthio yr holl ffordd am y Bencampwriaeth. Tair gôl i ddwy o blaid tîm y Penrhyn oedd y sgôr derfynol, ond rwy'n siŵr fod hogia Llanbêr yn cicio'u hunain oherwydd mai hwy eu hunain a sgoriodd ddwy gôl i dîm Penrhyn!

O ganlyniad i'r fuddugoliaeth hon, mae Llanberis a'r Penrhyn yn gyfartal ar y brig ar ôl chwarae chwe gêm yr un.

Llanrug — Newydd a Hen

Cyfuniad o'r hen a'r newydd sydd yn nhîm Llanrug eleni. Cafwyd rhai chwaraewyr newydd i'r garfan, a dychwelyd dau o hogia'r pentref — Hefin Pritchard a Ken Griffith — ar ôl ysbaid gyda chlwbiau mewn cynghreiriau uwch. Mae'n ymddangos fod y gemau cyntaf wedi eu defnyddio i'r cyfuniad newydd ddod i arfer â'i gilydd fel tîm, a bellach mae cydweithrediad a chyd-chwarae yn dod i'r amlwg. Tair ar ddeg o goliau yn unig yn eu pedair gêm gyntaf, ond yna newid i gêr uwch a sgorio ugain yn y ddwy nesaf! Ddydd Sadwrn diwethaf chwalwyd tîm Penygroes, pan sgoriodd Llanrug 13 gôl, a Hefin Pritchard yn sgorio pedair ohonynt; yn dilyn pedair yn erbyn tîm y Bontnewydd y Sadwrn cynt.

Deiniolen — Gwell trefn

Chwaraewyr ifanc, lleol sydd yng ngharfan Deiniolen y tymor hwn, ac er nad yw eu gemau cyntaf wedi dod â fawr o lwyddiant iddynt fel tîm, eto'i gyd, canmolwyd hwy ym mhwyllgor diweddar o'r gynghrair am fod yn llawer mwy effeithiol eu trefniadaeth eleni na'r llynedd. Bydded i'r effeithiolrwydd hwn tu ôl i'r llessni amlgyu ei hun ar y cae yn ystod y tymor. Gêm gyfartal yn erbyn Dyffryn Nantlle a gafodd hogia Llanbabs ddydd Sadwrn, yn dilyn buddugoliaeth ym Mhenygroes yn gynharach yn y tymor.

Bethel — Cae Newydd

Dymuniad mawr Bethel ar ôl ymuno â'r Gynghrair oedd cael cae yn y pentref yn hytrach na gorfod teithio i gae Ysgol Brynrefail gogyfer â'u gemau cartref. Eleni, gwiredwyd eu breuddwyd, ac y maent bellach yn chwarae ar Gae'r Sioe, ger Capel Cysegr. Gwelwyd yn eu gêm gyntaf yno yn erbyn y Felinheli fod llawer gwell cefnogaeth ar gael yn y pentref, a mawr obeithir y bydd y gefnogaeth hon yn rhoi mwy o hwb i'r tîm. Hyd yma, gwan fu eu perfformiad ar y cae, gan ennill un pwynt yn unig. Ddydd Sadwrn, colli fu eu hanes unwaith eto; y tro hwn o chwe gôl i un yn erbyn y Bontnewydd.

Ddydd Sadwrn, Medi 29ain, bydd timau Llanberis a Llanrug ar daith a fydd, gobeithio, yn arwain i Gwpan Iau Gogledd Cymru. Yn anffodus, mae'r ddau dîm yn gorfod chwarae oddi cartref yn y rownd gyntaf — Llanrug yn teithio i Flaenau Ffestiniog, a Llanberis yn mentro i Fochdre. Pob dymuniad da i'r ddau dîm.

CYNGHRAIR CAERNARFON A'R CYLCH

	CH	E	Cyf	C	O BI	Yn Erb	Pwynt
Llanberis	6	5	0	1	27	7	10
Llanrug	6	4	0	2	33	12	8
Deiniolen	7	1	1	5	8	31	3
Bethel	5	0	1	4	4	25	1

CANOLFAN NEWYDD Y WAUNFAWR

